



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales

Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn

Adroddiad Comisiynydd
Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mai 2018



Rhagair

Pwrpas yr adroddiad hwn

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi sut y byddant yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cenedl. Ers Ebrill 2017, mae cynghorau, byrddau iechyd, parciau cenedlaethol, gwasanaethau tân ac achub, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Chwaraeon Cymru, wedi bod yn gweithio tuag at 345 o gydamcanion.



Cyn bo hir, bydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus (sy'n cynnwys prif weithredwyr ac arweinwyr y cyrff cyhoeddus hynny) yn cyhoeddi eu cydamcanion i wella llesiant pobl yn eu hardal leol. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r amcanion hyn i gyd gael eu dylunio i gyfrannu tuag at y **saith nod llesiant cenedlaethol** – cydweledigaeth ar gyfer Cymru – a bennwyd gan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) (Y Ddeddf).

Drwy osod amcanion llesiant a chamau i'w cyflawni mae cyrff cyhoeddus yn dangos i'r byd sut yr ydym ni, yng Nghymru, yn gweithredu'r ddeddfwriaeth hon, sy'n torri tir newydd ac sy'n gwneud datblygu cynaliadwy'n rhan hanfodol o'r hyn a wnawn.

I wneud hyn, mae'n rhaid i ni feddwl am yr hirdymor, gan ystyried effaith yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr ar genedlaethau'r dyfodol, gan weithio gyda'n gilydd mewn dull cydgyssylltiedig wrth i ni ymroi i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ac ennyn ymgyfraniad pobl yn ein cymunedau wrth weithio tuag at y **saith nod llesiant**.

Cyfeirir at y rhain fel y **pum dull o weithio** ac maent y wahanol iawn i'r modd yr ydym wedi bod yn gweithio yn y gorffennol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn gosod amcanion a chamau i'w cyflawni gan ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r **pum dull o weithio**. Fy nyletswydd i, fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yw monitro ac asesu i ba raddau mae'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni. Llynedd, llofnododd Archwilydd Cyffredinol Cymru, a minnau [Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth](#) sy'n disgrifo'r dyletswyddau hyn, a sut yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd er lles cyrff cyhoeddus.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru a fy swyddfa i drosolwg o'r modd y mae'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ar draws y wlad yn derbyn a deall y Ddeddf. Wrth i gyrff cyhoeddus fyfyrion ar flwyddyn gyntaf eu gwaith tuag at wireddu eu hamcanion a pharatoi eu hadroddiadau blynyddol, rwyf i ac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ysgrifennu adroddiadau sydd, gyda'i gilydd, yn darparu ciplun mewn amser o ble yr ydym ni yng Nghymru – ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf – ac i ble mae angen i ni fynd.

Er mwyn sbarduno newid trawsffurfiol, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus:

Weld y Ddeddf fel un ddefnyddiol

Rwyf wedi siarad lawer gwaith am yr angen i osgoi gweld y Ddeddf fel ymarfer 'seiliedig ar gydymffurfiaeth'. Wrth ddweud hyn, golygaf fod gennym gyfle gwirioneddol i herio'r modd y mae Cymru'n gweithio i greu gwell dyfodol i'n cenedl a dylech weld y Ddeddf fel cyfrwng defnyddiol o herio'r ffordd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, fel fframwaith ar gyfer cynllunio a gwerthuso, ac fel dull o newid y ffordd mae canolfannau corfforaethol yn gweithredu ar hyn o bryd. Nid yw hon yn dasg hawdd, ond mae dangos arweinyddiaeth gref a pharodrwydd i newid yn hanfodol; a gosod amcanion llesiant yw'r cyfarwyddyd cyntaf y byddwch yn ei roi i'ch sefydliad o dan y Ddeddf.

Defnyddio lens y Ddeddf

Wrth ddweud hyn golygaf y dylai amcanion gael eu penderfynu drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r **pum dull o weithio** i lunio syniadau. Dylai hwn fod yn fan cychwyn ar gyfer gosod amcanion, yn hytrach na ffocysu'n unig ar y **saith nod llesiant** neu'r dangosyddion llesiant cenedlaethol.

Macsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol

Mae'r Ddeddf yn datgan y dylai amcanion fod yn integredig, h.y. ystyriwch sut mae amcan yn effeithio ar, neu sut y gallai effeithio ar, bob un o'r nodau. Dylech ddeall sut mae eich sefydliad mewn lle unigryw i gyfrannu at bob un o'r nodau. Gallai defnyddio'r **pum dull o weithio**'n effeithiol eich annog i gydweithio gydag eraill ac ennyn ymgyfraniad 'rhai anarferol' i gyflawni'r amcan a maksimeiddio eich cyfraniad tuag at y saith nod.

Anelu at dargedau

Ni ddylai amcanion llesiant fod yn seiliedig ar 'fusnes-fel-arfer', ond dylent gwmpasu popeth sydd angen i gyrff cyhoeddus ei wneud yn unigol neu ar y cyd. Dylai amcanion fynd tu hwnt i amcanion corfforaethol traddodiadol a mabwysiadu agwedd fwy hirdymor. Gallai fod yn ddefnyddiol i nodi'r cyddestun ehangach lle'r ydych wedi rhoi blaenoriaeth arbennig i rai materion ar draul gweithgareddau eraill yn y datganiad llesiant a'r cynllun llesiant. Rwyf wedi dweud cyn hyn y gallai ffocysu'n drylwyr ar nifer bychan o faterion a defnyddio lens y Ddeddf i edrych arnynt mewn dull gwahanol, gael effaith drawsffurfiol ar lesiant pobl yng Nghymru.

Mae ein hadroddiadau'n darparu gorolwg o bwrpas, cynnydd a chyflymder. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi darparu ei sylwadau ar y modd y mae'r 44 sefydliad yn cychwyn ymateb i'w dyletswyddau. Mae fy adroddiad i yn gyflenwol, ac yn amlinellu'r hyn y mae'r sefydliadau wedi ei ddweud y byddant yn ei wneud yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac mae'n rhoi cyngor iddynt ar y ffordd orau o ddangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i gyflawni eu hamcanion. Mae'r adroddiad yn cynnwys 6 rhan:

- 1** Rhagair
pwrpas yr adroddiad hwnt
 - 2** Negeseuon allweddol
yr hyn fydd angen i chi ei wneud a'r hyn yr wyf yn disgwyl ei weld
 - 3** Rhagymadrodd
fy nyletswyddau fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
 - 4** Enghreifftiau
yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu hyd yn hyn
 - 5** Gwybodaeth
yr hyn a ddywedir wrthym gan yr amcanion llesiant
 - 6** Cyngor
fy nisgwyliadau o'r adroddiadau blynyddol
- Atodiad
Adnoddau cynorthwyol

Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

Mae'r adroddiad hwn, a ysgrifennwyd ochr yn ochr a *Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, adroddiad st'n cael ei gyhoeddi gan Archwiliad Cyffredinol Cymru.

Mae'r ddau adroddiad yn adlewyrchiad o'r modd y mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ei mabwysiadu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gan adeiladu ar ganfyddiadau ac argymhellion fy adroddiad llynedd [Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory](#), mae'r adroddiad hwn yn nodi sut mae pethau wedi mynd rhagddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a sut ddylai cyrff cyhoeddus wella'r modd y maent yn dangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i gyflawni eu hamcanion. Mae'r adroddiad yn cynnwys adnoddau, cysylltiadau a newidiadau syml y gall cyrff cyhoeddus eu gwneud yn awr.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni gynorthwyo sefydliadau fel rhan o'r siwrnai barhaus hon ac mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o'r ymrwymiad hwnnw.

Disgwyliad 1: Amcanion llesiant a nodau

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus nodi'n glir eu hamcanion llesiant a'r camau y maent yn eu cymryd i'w cyflawni. Rhaid i hyn gynnwys y modd y mae'r **pum dull o weithio** a'r **saith nod llesiant cenedlaethol** wedi eu defnyddio i drwytho gosod amcanion a champau. Ond nid yw hyn yn disbyddu dyletswydd cyrff cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod gosod amcanion a champau yn ddull, ond nid yr unig ddull o gyflawni'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Sut mae'r sefydliad yn bwriadu maxsimeiddio ei gyfraniad i'r **saith nod llesiant** a chyfeirio at y saith maes newid creiddiol yn y canllawiau statudol? Rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd ddarparu gwybodaeth ar y modd y mae adnoddau wedi eu defnyddio i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

Disgwyliad 2: Egwyddor datblygu cynaliadwy

Rhaid i adroddiadau blynyddol ddisgrifio sut mae sefydliad yn gwneud synnwyr o'i ddyletswydd i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a mynegi sut mae hyn yn cyd-fynd â dyletswyddau eraill deddfwriaethol (neu gyfeirio'r darlennydd at wybodaeth bellach), eu hamcanion corfforaethol, cynllunio busnes a gwasanaethau gweithredol.

Disgwyliad 3: Edrych ymlaen

Tra'n cydnabod bod newid yn cymryd amser, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus nodi'r hyn a olygant wrth son am gyflawni eu hamcanion yn llwyddiannus a nodi eu huchelgais parthed pa le yr hoffent fod mewn 5,10, 15, 25 mlynedd neu du hwnt.

Disgwyliad 4: Olrhain cynnydd

Rhaid i gyrff cyhoeddus egluro yn eu hadroddiadau blynyddol i ba raddau y maent wedi cymryd camau i gyflawni eu hamcanion, pa mor effeithiol fu'r camau hyn, sut y maent yn olrhain cynnydd a sut y maent yn mabwysiadu neu addasu dulliau newydd o ddangos cynnydd.

Disgwyliad 5: Cymhwyso a gweithredu'r Ddeddf

Mae'n rhaid i adroddiadau blynyddol nodi sut mae'r saith maes sy'n gofyn am newid corfforaethol yn yr arweiniad i'r Ddeddf wedi peri iddynt gychwyn addasu eu dulliau o weithio, disgrifio effaith gweithredu'r Ddeddf ar benderfyniadau, rhoi enghreifftiau o'r hyn y maent yn ei wneud yn wahanol a'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud nesaf. Mae'n hollbwysig bod cyrff cyhoeddus yn dathlu'r newidiadau syml hyn yn eu hadroddiad blynyddol ac yn eu datganiadau ar lesiant yn y dyfodol.

Disgwyliad 6: Hunan-fyfyrio

Dylai cyrff cyhoeddus ail-ymweld â'u hamcanion llesiant mewn dull beirniadol ac ystyried pa mor addas ydynt at y diben ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Pan fydd amcanion wedi cael eu hadolygu a'u newid, dylai hyn gael ei egluro'n glir yng nghyd-destun y **pum dull o weithio** a'r **saith nod lesiant cenedlaethol**. Dylai adroddiadau fod yn hunan-fyfyriol gan ddisgrifio sut mae'r Ddeddf wedi cael ei defnyddio, egluro'r tensiynau a gododd wrth geisio ei gweithredu a'r gwersi a ddysgwyd fel canlyniad i ddefnyddio'r Ddeddf.

Disgwyliad 7: Cydweithio gyda chyrff eraill

Wrth i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGCau) gyhoeddi eu cynlluniau llesiant, disgwyliaf weld sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gyfrannu tuag at amcanion llesiant y BGCau. Gall y bydd hyn hefyd yn gofyn i gyrff cyhoeddus adolygu eu hamcanion gan egluro proses eu syniadau a dangos bod eu gwaith yn rhan o'r newid diwylliannol sydd ei angen i wireddu'r Ddeddf.

Disgwyliad 8: Atebolrwydd

Rhaid i adroddiadau blynyddol roi tystiolaeth o'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd, aelodau etholedig ac aelodau BGCau wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhob peth a wnânt.

Disgwyliad 9: Gwneud eich adroddiadau yn glir

Dylai cyrff cyhoeddus fod yn gwneud pethau syml fel dyddio dogfennau, egluro statws y cyhoeddiad a chadw'r wybodaeth yn syml yn osgoi dryswch ac yn helpu pobl i ymglyfrannu. Dylent hefyd fod yn cael pobl i ymglyfrannu yn y gwaith o grynhoi, ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau.

Fy nyletswyddau fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym yn Ebrill 2016. Mae'r ddeddfwriaeth yn torri tir newydd yn fyd-eang wrth wneud datblygu cynaliadwy'n rhan hanfodol o'r hyn a wnawn. Mae'r Ddeddf yn rhoi i ni uchelgais, caniatâd a dyletswydd gyfreithiol i wella'r hyn a wnawn a'r modd yr ydym y ei wneud.

Erbyn Ebrill 2017, roedd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus lleol a chenedlaethol ar draws Cymru gyhoeddi eu hamcanion llesiant a'u camau, gan ddangos sut y byddant yn gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol Cymru a chyfrannu tuag at **saith nod llesiant cenedlaethol**.

Cymru lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas

Cymru gydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)

Cymru iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i ieched yn y dyfodol

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, n ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang

Yn ystod y ddwy flynedd ers i'r Ddeddf ddod i rym, mae cyrff cyhoeddus wedi treulio llawer o amser ac egni'n sicrhau eu bod yn cwrdd â'r amserlen heriol a nodir yn y Ddeddf ar gyfer cyhoeddi'r amcanion hyn, gan weithio ar asesiadau llesiant ar gyfer eu hardal leol a datblygu cynlluniau llesiant ar y cyd.

Er ei bod yn bwysig i gyfleu i bobl Cymru fwriadau a gweithrediadau'r sector cyhoeddus, un rhan yn unig o'r darlun yw'r prosesau sydd ynghlwm wrth y Ddeddf. I gyflawni ysbryd a bwriadau'r Ddeddf, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried sut y maent yn gweithredu datblygu cynaliadwy ym mhob peth a wnânt – trefn lywodraethol, cynllunio strategol a pherfformiad, cyflwyniad prosiectau a gwasanaethau a newid diwylliannol – a chyfleu'r newid hwn drwy eu hadrodd.

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, mae gen i ddyletswyddau i hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a gweithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru i gyflawni eu hanghenion, gan annog cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor yr hyn a wnânt. At y pwrpas hwn, mae'n rhaid i mi fonitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r amcanion llesiant a bennwyd ganddynt (Rhan 3, Adran 18, 2015). Yn syml iawn, golyga hyn wyllo a barnu cynnydd cyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu hamcanion.

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd y ddyletswydd i 'weithredu archwiliadau o gyrff cyhoeddus at y pwrpas o asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth a) osod amcanion llesiant, a b) gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.' Rhaid cynnal archwiliad ym mhob corff cyhoeddus rhwng 2015 a 2020. Nid oes y fath amodau ynghlwm wrth fy nyletswydd i.

Nid wyf eto wedi darparu mewnwelediad na chyngor ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus oherwydd, yn ystod

blwyddyn gyntaf y Ddeddf, mae fy nyletswyddau, a nodir yn y Ddeddf, yn ymwneud â chynghori BGCau. Yn 2017, cynghorais bob BGCau ar eu hasesiadau llesiant gan gyhoeddi ***Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory*** oedd yn cynnwys argymhellion perthnasol i bob un o'r cyrff cyhoeddus llynedd. Hefyd mae'n rhaid i mi gynghori BGCau ar y modd y gallent gymryd camau i gyflawni eu hamcanion, ond nid oes gennyf y pwerau pellach i graffu ar eu gwaith.

Er nad oes gennyf y ddyletswydd gyfatebol i gynghori cyrff cyhoeddus unigol ar eu hamcanion neu eu camau llesiant, mae'n rhaid i mi yn awr fonitro ac asesu i ba raddau y maent yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn anghysonder nad yw'n fy nghynorthwyo i na chyrff cyhoeddus na BGCau wrth i ni wneud ein gwaith, ond er hynny dyma'r hyn sy'n ofynnol i ni anelu tuag ato.

Fodd bynnag, mae gen i bwerau i roi cyngor, cymorth ac i annog arfer gorau a chydweithio rhwng cyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu hamcanion ac mae'r adroddiad hwn yn enghraifft o fy nghyngor. Yn ogystal â chydweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer yr adroddiad hwn, rwyf wedi ennyn ymgyfraniad y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddeall yr hyn a fyddai'n fwyaf defnyddiol iddynt hwy i'w gynnwys yn y fan hon a beth y maent yn awyddus i'w weld yn digwydd fel canlyniad i'r ddeddfwriaeth gyffrous hon.

Rwyf wedi rhannu fy marn gydag eraill – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant, fel y gallwn barhau i weithio gyda'n gilydd i atal rhoi pwysau ychwanegol ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt ymateb i'w dyletswyddau statudol.

Fel canlyniad, bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi enghreifftiau o gynnydd, a chyngor ar y modd y gall y sector cyhoeddus ddangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i gyflawni eu hamcanion.

Dylai'r adroddiad roi gwybodaeth ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yn myfyrio ar eu gwaith hyd yn hyn, yn adolygu eu hamcanion llesiant a'u camau, ac yn paratoi eu hadroddiadau blynyddol – yr arwydd cyntaf o gynnydd o dan y Ddeddf.

Beth yr ydym wedi ei ddysgu hyd yn hyn

Dim ond yn y flwyddyn ddiwethaf yr ydym wedi gweld y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dod yn fyw. Ers Ebrill 2016, mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus (sy'n cynnwys prif weithredwyr ac arweinyddion gwahanol sectorau mewn ardal) wedi cyhoeddi asesiadau o lesiant ar gyfer eu hardal, wedi drafftio amcanion i wella llesiant ac wedi ymgynghori â'u cymunedau ar y cynlluniau hyn.


Mae cyrff cyhoeddus, megis cynghorau, byrddau iechyd, parciau cenedlaethol a Llywodraeth wedi cyhoeddi eu datganiadau llesiant cyntaf, gan ddisgrifio'r modd y byddant yn gweithredu i wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd.

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf o weithredu, mae fy mhwerau fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi caniatáu i mi ddeall ble mae'r sefydliadau hyn ar ei siwrnai tuag at gyflawni'r **saith nod llesiant cenedlaethol** yng Nghymru. Credaf fod y siwrnai'n cychwyn mewn man lle gellir gwneud 'newidiadau syml', gan symud drwy wahanol gyfnodau o herio arfer presennol, ymestyn ein hunain a gweithio gydag eraill i ddatblygu ymagweddau newydd a fydd wedyn yn cyrraedd cyfnod

o drawsffurfio a fydd yn newid bywydau pobl. Pen draw'r siwrnai yw'r man lle mae Cymru'n arwain y ffordd mewn datblygu cynaliadwy a llesiant cenedlaethau'r dyfodol – 'gan weithredu mewn modd sy'n ymroi i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu gwireddu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion hwythau.'

Dylai cyrff cyhoeddus fod yn defnyddio'r pum dull o weithio i osod amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r rhain mewn modd sy'n adlewyrchu sut mae'r siwrnai hon 'yn gwneud yr hyn sy'n amlwg' wrth symud ymlaen i 'arwain y ffordd'.

Gwiro'r siwrnai – 'Ble ydym ni nawr?'



Rwyf eisoes wedi egluro bod y siwrnai hon yn mynd i gymryd amser ac na fydd cyrff cyhoeddus eto wedi gweithredu egwyddorion y Ddeddf yn llwyr. Yn fy adroddiad ar yr asesiadau llesiant a gynhyrchwyd gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017) nodais rai meysydd allweddol lle'r oedd angen i aelodau BGCau a'r rhai hynny sy'n darparu cymorth yn lleol a chenedlaethol, yn cynnwys fy swyddfa, i ffocysu arnynt er mwyn helpu cyrff cyhoeddus a BGCau i fanteisio i'r eithaf ar y Ddeddf, nid fel blwch-ticio neu ymarfer cydymffurfio, ond fel fframwaith ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, fel eu bod yn addas i gyflawni anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud ei fod yn croesawu hunan-fyfyrion diffuant ar gynnydd. Rwy'n cydnabod bod cyrff cyhoeddus yn gwneud newidiadau syml ac yn dod yn ddyfeisgar, tra bo rhai yn cychwyn ymestyn eu hunain yn barod, ond mae newid gwirioneddol drawsffurfiol yn cymryd mwy o amser.

Ond dros amser, byddaf i a Swyddfa Archwilydd Cymru a phobl Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus fod yn medru dangos sut mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn a wnânt. Yn yr un modd, gan ein bod yn awr yn cyrraedd trydedd flwyddyn y ddeddfwriaeth, disgwyliaf weld mwy o gyrff cyhoeddus yn mabwysiadu newidiadau syml ar draws Cymru, yn ogystal â gweld ymagweddau newydd yn cael eu mabwysiadu a symudiad tuag at beri i newid trawsffurfiol ddigwydd.

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o gynnydd cyrff cyhoeddus hyd yn hyn, enghreifftiau o gynnydd a'r hyn yr ydym, hyd yn hyn, wedi ei ddysgu.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â newid ymddygiad (fel unigolion a sefydliadau), â gweithredu mewn dulliau gwahanol a bod yn ddewr wrth wneud penderfyniadau. Wrth ymateb i alwad Archwilydd Cyffredinol Cymru am dystiolaeth, disgrifiodd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus y Ddeddf mewn termau cadarnhaol ac mae llawer yn ei gweld fel cyfle.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bob peth mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud – o gychwyn syniad i wneud penderfyniadau polisi o bwys ar wasanaethau neu seilwaith. Mae'n ymwneud â mwy na chyhoeddi dogfennau neu ddangos cydymffurfiaid â'r **pum dull o weithio** neu'r nodau. Mae'n ymwneud â newid y ffordd yr ydym yn meddwl, cynllunio a gweithredu. Mae hwn yn newid arwyddocaol i'r 400,000 sy'n gweithio i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac ni fydd yn digwydd dros nos.

Mae canllawiau statudol y Ddeddf yn nodi saith maes ar gyfer newid o fewn canolfannau corfforaethol sefydliadau (risg, rheoli perfformiad, cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, asedau a chaffael) lle mae angen i newid ddigwydd o'r tu mewn. Darganfu Swyddfa Archwilio Cymru bod ychydig o'r cyrff cyhoeddus wedi gwneud cyfeirnod echblyg i'r meysedd hyn. Eto, mae rhai cyrff cyhoeddus a BGCau yn croesawu'r newid hwn drwy wneud newidiadau syml i'r modd y maent yn gweithio. Mae'r rhain yn bethau y gellid eu gwneud heb fynd i gostau mawr, ond yn rhai sy'n gwneud gwahaniaeth mawr ar draws nifer o nodau llesiant cenedlaethol. Mae angen i gyrff cyhoeddus ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ystyried a fedrant ac a ddylent eu mabwysiadu ar gyfer eu sefydliad.

Mae fy swyddfa'n datblygu banc o ddulliau hawdd, ymarferol y gall cyrff cyhoeddus eu defnyddio i gyflawni'r nodau yn y Ddeddf a'r amcanion a osodwyd ganddynt. Byddaf yn dymuno gweld y modd y mae cyrff cyhoeddus yn dangos sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion. I wneud hyn, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fod yn barod i ddysgu oddi wrth ei gilydd a gweithredu pethau sy'n gweithio.

Enghraifft

A oes angen torri'r porfa?

Mae nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwneud y penderfyniad i newid y ffordd y maent yn rheoli manau agored o gwmpas eu swyddfeydd a'u hasedau. Fel enghraifft o'r modd y gall sefydliad gael effaith ar draws nodau llesiant, mae rhai adrannau ystâd wedi dechrau torri'r porfa'n llai aml gan blannu cymysgedd o hadau blodau gwyllt.

Mae un o swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon, wedi cofnodi bod o leiaf 15 math o wenyn wedi ymweld â'r safle, ynghyd â chynnydd mewn tegeirianau, ieir bach yr haf a bywyd gwyllt arall.

Mae yna lawer o astudiaethau sy'n dangos bod prinder manau gwyrdd yn achosi straen, ac i'r gwrthwyneb – bod mynediad i fannau gwyrdd yn cynyddu cynhyrchiant. Parthed swyddfeydd cyhoeddus, mae cynnydd mewn cynhyrchiant yn newydd da i'r economi Cymreig, yn ogystal ag i iechyd a llesiant pobl.

Mae blodau gwyllt nid yn unig yn gweithredu fel cynefin croesawgar i fywyd gwyllt ond hefyd yn atafaelu, yn hytrach na chreu, carbon – gan beri i sefydliad fod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang.

[Gwylwch y fideo yn y fan hon:](#)

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos cynnydd, ac yn awr mae angen iddynt fod yn rhan o newid system gyfan. Rhaid i gyrff cyhoeddus ddathlu'r prosiectau hyn a dangos sut y maent yn creu newid ar draws eu sefydliad – yn hytrach na dibynnu ar unigolion arloesol o fewn adrannau arbennig. Mae'n bwysig eu bod yn dysgu oddi wrth gynnydd ei gilydd ac yn dilyn camau ei gilydd ar y siwrnai hon – gwlad fach yw Cymru a gall newid trawsffurfiol ledaenu'n gyflym.

Yn ogystal â chynnydd sy'n symud yn bwyllog, mae yna rai sy'n rhwystredig o araf, ac weithiau mae gweithredu arafgynnydd yn digwydd, megis dewis diffinio llesiant yn gyson fel rhywbeth sy'n ffocysu'n unig ar werth

Enghraifft

Rhaglen Engage to Change Betsi Cadwaladr

Mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi edrych ar y modd y gallant gynorthwyo'r gymuned leol i wella'u sgiliau ac ansawdd cyflogaeth. Gan edrych ar gynllunio gweithlu ar draws eu hardal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu partneriaeth gyda'r prosiect 'Engage to Change', sy'n cynorthwyo pobl ifanc ag anawsterau dysgu i mewn i gyflogaeth. Er ei fod yn dal yn ei flwyddyn gyntaf, mae'r prosiect, yn ôl pob golwg, yn gweithio'n llwyddiannus, gyda chyfranogwyr yn cael eu hannog i wella'u sgiliau drwy gydol eu hinterniaeth gan deimlo fel partneriaid cyfartal yn y gweithle.

[Gwylwch y fideo yn y fan hon:](#)

economaidd, megis swyddogion yn mabwysiadu asesiadau effaith ar gyfer y Ddeddf nad ydynt yn annog gwelliant – heb wneud mwy na thicio blychau, a rhagdybio ein bod 'eisoes yn gwneud hyn' – pan, wrth edrych ar ein dangosyddion cenedlaethol a'n llesiant fel gwlad, mae'n amlwg nad ydym.

Er y gwelir arfer da yn y rhan fwyaf o sefydliadau ac yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru, nid oes unrhyw un sefydliad yn ymgorffori'r Ddeddf yn gyfan gwbl. Y rhai hynny sy'n onest ac sy'n cydnabod lle gellid gwneud mwy, yw'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi llwyddo orau wrth gyflawni cyraeddiadau uchelgeisiol y Ddeddf.

Er mwyn sylweddoli'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Ddeddf i'r heriau a grëir gan galedi, newid demograffig a'r pwysau ar wasanaethau, mae angen i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r Ddeddf ym mhob peth a wnânt a phob penderfyniad a wnânt. Mae'n ymwneud nid yn unig â gosod amcanion ond â meddwl am wasanaethau cyhoeddus mewn dull gwahanol. Mae'r ddyletswydd yn y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud cyfraniadau positif i bob un o bedair nodwedd llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol) yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (yn cynnwys y **pum dull o weithio**) ac anelu at gyflawni pob un o'r **saith nod llesiant** yn gyffredinol.

Wrth benderfynu ble i ffocysu fy sylw, fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, rwyf wedi edrych ar y pethau sydd o bwys i bobl Cymru ac wedi gofyn pa heriau sy'n ein hwynebu ni a chenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn wedi rhoi i mi chwe blaenoriaeth ar gyfer fy nghyfnod yn fy swydd, sef:



Stoc dai



Cynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd



Cynllunio trafndiaeth



Sgiliau



Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod



Modelau amgen ar gyfer gwella iechyd a llesiant – a elwir yn aml yn 'bresgreibio cymdeithasol'

Mae llythyron a dderbyniaf oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn galw arnaf i herio'r modd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae pobl eu hunain yn dymuno gweld cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r Ddeddf wrth wneud penderfyniadau ac mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus sy'n eu cynrychioli hefyd gydnabod hyn. Er enghraifft, thema gyffredin yn fy ngohebiaeth llynedd oedd nad oedd pobl yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae nodi fy meysydd blaenoriaeth a chlywed yr hyn a ddywed pobl wrthyf, yn awgrymu bod angen i ni herio'r system – y ddeddfwriaeth, gweinyddiaeth, biwrocratiaeth, y broses o wneud penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau.

Os ydyw gwreiddiau coeden wedi pydru, ni fydd y goeden fyth yn tyfu



Yn ystod y blynyddoedd cyntaf o weithredu, mae wedi dod yn amlwg bod yna daith hir o'n blaenau cyn y gellir newid diwylliant sefydliadau a'r broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru. Yn cyfrannu i'r sialens hon, mae yna fyrdd o bolisiau cyfredol, canllawiau, dyraniadau cyllideb a dangosyddion perfformiad nad yw gofynion newydd y Ddeddf yn rhan hanfodol ohonynt.

Rwyf yn gweld fy rôl fel un sy'n cydnabod a dileu'r rhwystrau sy'n atal cyrff cyhoeddus rhag herio'r system yn effeithiol drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol Cymru bod cyrff cyhoeddus yn cydnabod bod y Ddeddf yn darparu cyfle gwych i wneud hyn. Ond, os nad ydyw amodau deddfwriaethau, polisiau a phrosesau eraill yn iawn, ni ellir gwneud y penderfyniadau cywir, ac mae cyflawni dyheadau'r Ddeddf yn dod yn flaenoriaeth gystadleuol arall i gyrff cyhoeddus.

Rwyf, felly, wedi ymroi i weithio gyda'r llywodraeth ac eraill i ail-gastio polisiau lle mae cyfleoedd yn codi. Mae hyn ar gyfer sicrhau ein bod, cam wrth gam, yn sicrhau bod yr holl system yn cynorthwyo pob corff cyhoeddus a gwneuthurwyr penderfyniadau yng Nghymru i weithredu'r Ddeddf.

Fel y darganfu Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn ei adroddiad, mewn rhai cyrff cyhoeddus, mae yna deimlad yn dal i barhau bod y Ddeddf yn 'ddianghenraid' ac yn deddfwriaethu ar gyfer pethau yr oeddynt eisoes yn eu gwneud fel sefydliad. Yma, mae arweinyddiaeth y sefydliad yn hollbwysig. Mae llawer o ymagweddau newydd, a newid trawsffurfiol a welaf, yn aml yn digwydd mewn amgylchiadau lle mae pobl wedi gorfod gweithio'r tu allan i'r system, wedi plygu'r rheolau neu'n dweud bod y Ddeddf 'wedi rhoi caniatâd iddynt'. Mae arweinwyr yn chwarae rhan arwyddocaol wrth roi pŵer i'w gweithwyr, wrth hyrwyddo syniadau newydd, cynorthwyo arloesedd, annog cymryd risgiau o dan reolaeth dda a dysgu o fethiannau yn ogystal ag o lwyddiannau.

Enghraifft

Trafnidiaeth

Mae'r [WelTAG 2017 Arweiniad ar Arfarnu](#)

[Trafnidiaeth](#) newydd a gyflwynwyd i awdurdodau lleol ar brosiectau trafnidiaeth newydd yng Nghymru yn annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyson pan fyddant yn meddwl am adeiladu achos busnes.

Cynllunio

Yn aml, mae cymunedau'n teimlo bod datblygiadau'n cael eu gwthio arnynt yn erbyn eu hewyllys. Mae hyn yn awgrymu nad yw cyrff cyhoeddus yn darganfod y ffyrdd gorau o harneisio gweledigaeth a gwybodaeth pobl o'u cymunedau hwy eu hunain. Er enghraifft, mae nifer mawr o'r llythyron yr wyf yn eu derbyn yn ymwneud â phenderfyniadau cynllunio. Mae hon yn un o'r systemau nad yw ar hyn o bryd yn ategu'r Ddeddf, ond sydd eto'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Rwyf yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ail-gastio eu polisiau cynllunio yng ngoleuni'r Ddeddf ac rwyf yn gweithio gyda swyddogion i gynhyrchu drafft diwygiedig o [Bolisi Cynllunio Cymru \(2018\)](#) a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau sy'n ystyried ceisiadau mewn dull mwy gorffenedig a hirdymor.

GIG

Mae cyrff cyhoeddus wedi dweud wrthyf fod amserlenni cynllunio a gwahanol deddfwriaeth a osodir arnynt yn heriol. Mae gwahanol gynlluniau sy'n dweud gwahanol bethau yn creu dryswch ymhlith y cyhoedd. Rwyf wedi bod yn daer wrth dynnu sylw Tîm Cynllunio'r GIG o fewn Llywodraeth Cymru at y modd y gall byrddau iechyd ddefnyddio'r Ddeddf yn eu cynllunio corfforaethol i ddatblygu ymagweddau newydd tuag at y system a gwasanaethau'r GIG. Mae'n ddymunol i weld bod rhai byrddau iechyd yn croesawu'n frwdfrydig y cyfleoedd a gyflwynir gan y Ddeddf, megis Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn herio'r cyfarwyddyd cenedlaethol i greu amcanion llesiant oedd yn fwy addas i'w cyd-destun a'u poblogaeth.

Enghraifft

Hyrwyddo'r Ddeddf

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Abertawe yn ddiweddar wedi dod o hyd i ddulliau o gyflawni manteision niferus drwy ailwampio'u swyddfeydd mewn dull sy'n cyfrannu tuag at **saith nod llesiant cenedlaethol** Cymru.

Er bod pwysau arnynt i fabwysiadu ymagwedd draddodiadol tuag at gaffael dodrefn, lloriau a phaent, mynnodd yr arweinyddiaeth o fewn y sefydliad wneud pethau'n wahanol – gan ddefnyddio'r Ddeddf fel cyfrwng i sicrhau newid.

Dangosodd lechyd Cyhoeddus Cymru sut y gellid cyflogi mentrau cymdeithasol lleol megis Greenstream yn y Porth a dodrefn Orangebox, a thrwy hynny greu swyddi lleol o ansawdd da lle mae llawer o'r cyflogaion yn anabl, neu wedi cael trafferth i ddod o hyd i swydd. Dysgodd Cyngor Abertawe o'r ymagwedd hon pan symudasant y ddiweddar o'u swyddfeydd – gan ddefnyddio llawer o'r un technegau a mentrau.

Mae dodrefn wedi cael ei ailgylchu, yn cynnwys eitemau oedd i fod i fynd i safleoedd tirlenwi ond sydd wedi eu glanhau a'u hadnewyddu ar gyfer cael eu defnyddio yn yr adeilad; mae teils carped yn cael eu hailgylchu ac mae'r sefydliadau wedi gweithio i sicrhau bod yr adeilad yn gwbl hygyrch, gan dderbyn cyngor oddi wrth RNIB Cymru ac arbenigwyr mewn hygyrchedd.

Dywedodd Sally Attwood, Rheolwr Rhaglen lechyd Cyhoeddus Cymru: 'Rwyf yn hynod falch o'r ffordd yr ydym wedi llwyddo i ddodrefnu'r pedwar llawr. Drwy gynnal ein hymrwymiad i ail-ddefnyddio dodrefn a defnyddio eitemau wedi eu hail-gynhyrchu, rydym wedi sicrhau dylunio ardderchog sy'n bodloni'n hanghenion ac yn werth yr arian.

'Rydym hefyd wedi medru gweithio gyda sefydliadau lleol yng Nghymru sy'n darparu dodrefn o ansawdd da ar ein cyfer, ac ar yr un pryd, yn rhoi hyfforddiant a phrofiad gwerthfawr i bobl sydd wedi cael trafferth i ddod o hyd i waith.'

Enghraifft

Llechweddau Iach

Mae tanau gwyllt wedi eu cychwyn yn fwiadol yn effeithio ar Gymoedd de Cymru bob blwyddyn. Drwy ddod at ei gilydd fel arweinwyr lleol yr ardal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaethau Natur De a Gorllewin Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi darganfod ymagwedd gydweithredol o reoli adnoddau naturiol Rhondda yn well, i helpu i leihau effaith a difrifoldeb tanau gwyllt.

Mae Llechweddau Iach yn ymwneud â thechnegau rhagweithiol o reoli tir, a fedr helpu i leihau maint tanau gwyllt, i'w hatal rhan lledaenu ar draws llechweddau cyfan, distrywio bywyd gwyllt lleol a pheryglu cymunedau. Mae swyddog prosiect yn cyd-gysylltu'r agwedd gydweithredol, a ariennir yn rhannol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac a drefnir gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, perchnogion tir lleol a'r gymuned i gynhyrchu strategaeth hirdymor ar gyfer lleihau tanau gwyllt yn y Rhondda a chyd-gysylltu gwaith ataliol ar lawr gwlad.

Enghraifft

Trefynach (Grangetown) Werddach

Mae Cyngor Dinas Caerdydd, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gyda chymorth Cronfa Cymunedau Tirlenwi, yn buddsoddi £2filiwn yn Nhrefynach Werddach, cynllun arloesol i wella'r dull o reoli dŵr glaw yn y gymuned. Drwy ddefnyddio'r technolegau diweddaraf, bydd y cynllun hwn yn dal, glanhau ac ailgyfeirio dŵr glaw yn syth i mewn i'r Afon Taf yn hytrach na'i bwmpio dros 8 milltir drwy Fro Morgannwg i'r môr. Bydd yn helpu i wneud Trefynach yn fan gwyrddach, a glanach i fyw ynddo.

Beth a ddywedir wrthym gan yr amcanion llesiant

Dylai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hysbysu'r hyn y mae cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud, a llunio'r modd y maent yn ei wneud, yn hytrach na dim ond cyhoeddi dogfennau a dilyn prosesau. I gyflawni'r Ddeddf, bydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut y maent yn gweithredu datblygu cynaliadwy ym mhob peth a wnânt.

Rwyf yn gwerthfawrogi bod cyrff cyhoeddus, aelodau byrddau gwasanaethau cyhoeddus, yn arbennig, wedi treulio llawer o amser ac egni yn cwrdd ag amserlenni heriol ar gyfer cyhoeddi eu hamcanion llesiant, asesiadau llesiant a datblygu cynlluniau llesiant lleol.

Yn y cyfnodau cynnar hyn ym bywyd y Ddeddf, mae'r wybodaeth hon yn rhoi tystiolaeth gliri i ni o ba mor bell mae sefydliadau wedi teithio ar y siwrnai o fusnes-fel-arfer tuag at newid trawsffurfiol.

Mae bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant am y tro cyntaf. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn gofyn beth a ddywedwyd wrthym gan yr amcanion? I ba raddau y mae'r sector cyhoeddus wedi symud ymlaen o wneud yr un hen beth, tuag at ddefnyddio'r Ddeddf a'r nodau i roi cynnig ar rywbeth gwahanol? Beth a ddywedir wrthym gan amcanion llesiant am y siwrnai hyd yn hyn?

Yn gyffredinol...

Mae canllawiau statudol y Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus ddefnyddio datblygiadau cynaliadwy i siapio **beth** y maen nhw'n ei wneud a **sut** y maen nhw'n ei wneud a sut y maen nhw'n yn **cyfleu** (drwy gyfrwng adrodd) y gwahaniaeth yr ydych yn ei gyflawni. Wrth adolygu'r datganiadau llesiant a gyhoeddwyd yn Ebrill 2017, mae'n dal yn anodd mewn llawer achos i ddeall hyn.

Mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi cyhoeddi datganiadau sy'n gwneud synnwyr iddynt hwy nad ydynt yn arbennig o hawdd i eraill eu deall. Mae'n bwysig i fynd i'r afael â hyn er mwyn darparu tryloywder i'r cyhoedd a'i gwneud yn bosibl i gynydd gael ei fesur.

Mae'n bwysig bod dogfennau'n hawdd dod o hyd iddynt ar-lein a'u bod wedi eu labeli'n glir fel datganiad llesiant, gyda'r dyddiadau perthnasol a gwmpesir gan y ddogfen. Tra fy mod yn gwerthfawrogi bod datganiadau llesiant y rhan fwyaf o sefydliadau wedi eu cynnwys fel rhan o'u cynllunio corfforaethol, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddal i fod yn glir wrth osod amcanion a chymau – a gwneud y rhain yn amlwg i eraill.

Mae'n addawol bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi cyfeirio at y Ddeddf yn eu datganiadau llesiant, ond prin yw'r rhai sydd wedi dangos sut y maent wedi ystyried a yw eu gwasanaethau presennol yn cyfrannu tuag at y **saith nod llesiant cenedlaethol** a beth mwy fedrent ei wneud – ar eu pen eu hunan neu gydag eraill. Ar hyn o bryd, mae cyrff cyhoeddus yn ymrwymo i amcanion llesiant sydd i raddau helaeth yn debyg i'r amcanion corfforaethol y byddent wedi eu gosod cyn 2017.

Enghraifft

Codi cyrhaeddiad addysgol

Mae nifer o gyrff cyhoeddus wedi gosod amcanion llesiant sy'n berthnasol i godi cyrhaeddiad addysgol pob plentyn ifanc. Mae camau i gyflawni'r amcan hwn yn cynnwys, er enghraifft, 'gwella safonau llythrennedd', 'cynyddu presenoldeb yn yr ysgol' a 'lleihau anghydraddoldebau mewn addysg'.

Er bod hyn yn bwysig, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos i mi, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac eraill sut y maent wedi ystyried y **pum dull o weithio** wrth osod eu hamcanion llesiant a'u camau, neu sut y gallant gyfrannu ymhellach i'r **saith nod llesiant cenedlaethol**. Mae angen iddynt hefyd nodi pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcan a sut y byddant yn mynd ati i wneud hyn gan gyfeirio yn arbennig at y saith maes craidd sy'n gofyn am newid yn y canllawiau statudol.

Er enghraifft, wrth godi cyrhaeddiad addysgol, sut mae'r sefydliad wedi edrych tu hwnt i'r pum mlynedd nesaf ac wedi ystyried y sgiliau y gallai fod eu hangen ar bobl ifanc er mwyn sicrhau swydd yn y dyfodol? Awgryma tystiolaeth mai'r sgiliau angenrheidiol fydd cyfathrebu da, creadigrwydd, rheoli prosiect a gallu i addasu i newid. Sut fedr y gwasanaeth addysg weithio gyda phartneriaid eraill i gynnig cyfle i ddisgyblion ddysgu'r sgiliau hyn?

Sut mae gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio i sicrhau bod plant sy'n profi amgylchiadau anodd yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn cael cymorth drwy'r system addysg, gan atal cyrhaeddiad gwael? Sut mae plant â phresenoldeb gwael yn cyfrannu tuag at

ddatblygu gwasanaethau sy'n eu helpu i ail-ymgysylltu â'r ysgol? A yw awyrgylch yr ysgol yn annog llesiant meddyliol a chorfforol da ymhlith disgyblion a staff? Sut fedr y gwasanaeth iechyd weithio gydag eraill, yn cynnwys y gymuned leol, i sicrhau bod ysgolion yn cynorthwyo cydlyniad a gwell canlyniadau i ddisgyblion?

Sut mae disgyblion yn ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol o gwmpas yr ysgol? Sut fedr adrannau ystâd weithio gydag eraill i ddylunio adeiladau ysgol mewn ffordd sy'n ffafrio dysgu a llesiant ac sy'n cyfrannu tuag at leihau allyriadau carbon? Sut ellir cynhyrchu deunyddiau cynaliadwy, o ffynonellau moesegol a Masnach Deg?

Mae'r saith nod llesiant cenedlaethol yn rhoi i ni yng Nghymru gyfeiriad clir ar gyfer ein taith. Dylai'r amcanion a osodir gan gyrff cyhoeddus fod yn tynnu i'r un cyfeiriad, gyda phob sefydliad yn ystyried yn gyhoeddus sut mae eu busnes ar hyn o bryd yn cyfrannu i'r nodau hyn. Wrth adolygu'r datganiadau llesiant hyd yn hyn, nid yw cyrff cyhoeddus eto'n datblygu amcanion sy'n egluro sut y maent ar hyn o bryd yn cyfrannu tuag at y nodau a sut y gallent facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau yn y dyfodol.

Ar nodyn cadarnhaol, ymatebodd nifer o gyrff cyhoeddus i alwad Archwilydd Cyffredinol Cymru am dystiolaeth gan ddweud eu bod wedi gwneud pethau'n wahanol drwy osod eu hamcanion llesiant cyntaf. Gallaf weld bod rhai datganiadau llesiant yn disgrifio sut y defnyddiwyd y **pum dull o weithio** i benderfynu ar amcan. Mae hyn yn dangos cynnydd a disgwyliaf weld mwy o gyrff cyhoeddus yn disgrifio'r hyn a olyga'r amcan iddynt hwy gan roi dystiolaeth o'u rhesymau dros weithredu.

Ond darganfu'r Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd 'tra bo'r gyrff cyhoeddus yn teimlo eu bod wedi defnyddio'r **pum dull o weithio** i raddau mwy, nad oedd bob amser yn glir sut yr oedd y broses yn wahanol, neu beth sydd wedi newid fel canlyniad.' Ochr yn ochr â Swyddfa Archwilydd Cymru, byddaf yn monitro'n ofalus sut mae hyn yn gwella.

Enghraifft

Datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol

Er enghraifft, gosododd 35 corff cyhoeddus amcanion oedd yn berthnasol i ddatblygu sgiliau a gweithlu ar gyfer y dyfodol yn 2017. Mewn llawer achos, eglurir sut y maent wedi defnyddio data, megis yr asesiadau llesiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi cynnwys cyfraniad preswylwyr ac wedi meddwl am effaith hirdymor prinder gweithlu addas ar gyfer y dyfodol.

Ond wedyn, yn hytrach na chymau sy'n ystyried sut y gallant facsimeiddio eu cyfraniad i'r **saith nod llesiant cenedlaethol**, mae'r camau cyhoeddedig yn cynnwys. 'Cyflwyno rhaglen Llywodraeth Gymreig i wella sgiliau' neu 'Cynorthwyo pobl ddi-waith i gael swydd.'

Dyma'r 'beth' ond nid oes gwybodaeth ddigonol ar 'sut' a phryd y byddant yn gwneud hyn. A fydd y rhaglen yn sicrhau bod sgiliau'n cael eu gwella mewn diwydiannau carbon-isel (gan gyfrannu tuag at Gymru ffyniannus)? Sut fydd y cyfleoedd a fydd ar gael yn cynnwys pawb? Sut fedr y rhaglen wella iechyd cyfranogwyr?

Ni ellir cyflawni'r dyletswyddau o dan y Ddeddf drwy ddibynnu ar ymagweddau traddodiadol. Rhaid i bob corff cyhoeddus ddangos sut y maent yn gweithredu pob dull o weithio a'r nodau llesiant cenedlaethol.

Gan ein bod ar hyn o bryd yng nghyfnodau cynnar gweithredu'r Ddeddf, mae yna dueddiad i fod yn ddiffygiol mewn integreiddiad ac ymgyfraniad pobl yn y dasg o ddylunio camau sy'n cyflawni dibenion a buddiannau niferus. Mae cyrff cyhoeddus wedi adrodd i Swyddfa Archwilio Cymru bod yna brinder 'amser a gofod i fyfrio'.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cydnabod y rhwystrau a ddisgrifir gan gyrff cyhoeddus parthed newid eu dulliau o weithio. Mae rhai o'i enghreifftiau, a nodir yn ei alwad am dystiolaeth oddi wrth gyrff cyhoeddus yn cynnwys:

- *'Ariannu tymor byr a llythyron cylch gwaith yn rhwystr i gynllunio hirdymor*
- *Diffyg hyblygrwydd ynglŷn â sut y gellir gwario arian grantiau a gofynion monitro anghymesur*
- *Cymhlethdod cyfreithiol ac anhawster cydgysylltu gofynion statudol mewn dull ymarferol*
- *Ffocws ar ddangosyddion a gofynion rheoleiddio, yn amharu ar y gwaith o ffocysu ar ganlyniadau*
- *Yr amgylchedd lywodraethu gymhleth a'r angen i gynorthwyo partneriaethau niferus, megis BGCau a Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol.'*

Rwyf yn gwerthfawrogi bod yna lawer o ddeddfwriaeth sy'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei bodloni, sy'n creu llawer iawn o weithgaredd. Ond drwy ddefnyddio'r **pum dull o weithio** mewn dull gwirioneddol, mae sŵn gweithgaredd yn tawelu a hyn yn ei gwneud yn bosibl dod o hyd i ddatrysiadau creadigol i'r arfer o 'wneud yr hyn yr ydym bob amser wedi ei wneud'. Rwyf eisoes wedi cynghori nad 'gwneud yr un pethau mewn ffordd well' yw'r Ddeddf, ond 'gwneud gwell pethau'.

Dylai amcanion llesiant adlewyrchu cymhlethdod y system gyflenwi o fewn yr hon yr ydym yn gweithio ar hyn o bryd. Mae yna brosiectau mawr yng Nghymru, megis Bargeinion Dinesig, buddsoddiadau seilwaith, gwelliannau mewn iechyd a gofal cymdeithasol, sydd ar y cyfan yn absennol o ddatganiadau llesiant. Er

na ddylai amcanion llesiant a chamau o reidrwydd adlewyrchu popeth a wneir gan sefydliad, bydd deall sut mae'r sefydliad ar hyn o bryd yn cyfrannu i'r **saith nod llesiant cenedlaethol**, a'r hyn y gall sefydliadau eraill lleol a chenedlaethol ei wneud i gynorthwyo, yn helpu i wneud synnwyr o brosiectau eraill, deddfwriaeth a phartneriaethau.

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd gyfrifoldeb i greu'r amodau cywir i ganiatáu i ddyheadau'r Ddeddf gael eu cyflawni. Er enghraifft, mae'r **Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru** yn galw am newid o'r tNHSu mewn ac mae'n gyfle i ail-gastio dangosyddion perfformiad, cynllunio gweithlu a dyraniadau cyllideb. Wrth ymateb mae gan y llywodraeth y potensial i ymgorffori dyheadau'r Ddeddf, gan wneud penderfyniadau polisi a chyflenwi gwasanaethau sy'n fwy addas ar gyfer yr hirdymor, yn ataliol ac integredig, ac sy'n ennyn ymgyfraniad pobl, a llawer mwy.

Yn yr un modd, yn eu proses o osod y gyllideb, dylai'r llywodraeth fod yn manteisio ar y cyfle i greu cyfleoedd i'r Ddeddf gael ei gweithredu.

Gan fod cynllunio ariannol yn un o'r saith maes craidd sy'n gofyn am newid o fewn y canllawiau statudol, rwyf yn dymuno gweld sut mae swyddogion yn diffinio atal a gwariant ataliol, fel bod y penderfyniadau ar y gyllideb yn dangos symudiad allweddol tuag at ymagweddau ataliol.

Rwyf yn herio Llywodraeth Cymru ar y modd y maent yn ennyn ymgyfraniad pobl Cymru wrth wneud penderfyniadau ar y gyllideb. Mae yna gyfleoedd i lywodraethau ddangos i gyrff cyhoeddus sut i wneud y Ddeddf yn haws ei gweithredu yn lleol.

Rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd fod yn fwy uchelgeisiol a herio llywodraeth ac eraill ynglŷn â gwneud y pethau cywir, er mwyn creu'r amodau delfrydol sy'n gwneud synnwyr i bobl Cymru a gwella llesiant.

Dim ond drwy herio'r system sy'n bodoli ar hyn o bryd y gallwn symud tuag at newid trawsffurfio ac mae'r Ddeddf yn rhoi caniatâd i herio a chwestiynu'r system.

Mae'r Ddeddf yn rhoi caniatâd i gyrff cyhoeddus hawlio integreiddio ac, fel y cyfryw, gall deddfwriaeth arall fod yn gyfle i sbarduno newid ymarferol. Er enghraifft, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) wedi cyflwyno datganiadau ardal i Gymru, a fydd yn darparu glasbrint i bobl mewn ardal ddaearyddol i hybu a gwarchod adnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Deddf Llesiant (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant a rhoi cyfle i bobl leiso barn am y gofal a'r cymorth a dderbyniant. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn bwriadu gwella'r broses gynllunio bresennol i sicrhau bod y datblygu iawn yn digwydd yn y lle iawn. Mae'r rhain yn rhan o holl

bwrpas y Ddeddf, ac ni ddylid eu gweld fel rhywbeth ar wahân neu fel baich ychwanegol ar ysgwyddau cyrff cyhoeddus.

Er bod newidiadau bach yn digwydd, mae fy adolygiad o ddatganiadau llesiant yn y flwyddyn gyntaf hon a'r ohebiaeth a dderbyniaf yn awgrymu bod hyn yn digwydd er gwaethaf amcanion llesiant a chatau. Mae'r newidiadau hyn yn aml yn cael eu sbarduno gan unigolion arbennig sy'n hyrwyddo'r Ddeddf ac yn meddiannu'r cyfleoedd.

Mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi bod yn adolygu eu hamcanion ac wedi ymroi i'w gwella. Mae hyn yn galonogol gan ei fod yn dangos bod y cyrff cyhoeddus hyn wedi cymryd amser i ystyried a yw eu set gyntaf o amcanion yn addas at y diben.

Enghraifft

Cyngor Caerffili

Er gwaethaf y gefnogaeth yng Nghaerffili i fentrau carbon isel, mae diffyg ariannu wedi golygu ei bod wedi bod yn anodd rhoi blaenoriaeth i brosiectau yn y gorffennol. Yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf, mae'r Cyngor wedi gosod amcan i 'gymryd camau i leihau Ôl-troed Carbon yr Awdurdod a thrwytho a chynorthwyo eraill o fewn y fwrdeistref i wneud yr un peth.'

Fel canlyniad mae'r Cyngor wedi clustnodi arian ar gyfer paneli solar i 20 ysgol. Eleni, mae'r Cyngor yn sefydlu tri chynllun solar ychwanegol ar adeiladau corfforaethol, gan gynhyrchu oddeutu 56 tonnell o arbedion carbon bob blwyddyn.

Mae gan y Cyngor eisoes nifer o gynlluniau i sefydlu goleuadau LED ar draws ei ystadau ac yn awr mae hefyd wedi sefydlu pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y sir. Mae'r Cyngor yn agosáu at gael casgliad o gerbydau trydan ac yn gweithio i gael mwy o gerbydau trydan ar gyfer y gwasanaeth Pryd ar Glud a gwasanaethau eraill.

Enghraifft

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

I gychwyn cydnabu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys eu hamcanion corfforaethol fel amcanion llesiant ac roeddent yn mynd i fapio'r rhain yn erbyn y **saith nod llesiant**.

Fodd bynnag, penderfynodd y Bwrdd Iechyd nad oedd yr amcanion corfforaethol gwreiddiol hyn yn addas at y diben, gan nad oeddent wedi eu gosod drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r **pum dull o weithio** neu heb ddefnyddio'r ddeddfwriaeth fel cyfle i feddwl yn wahanol a chynllunio ar gyfer yr hirdymor. Felly roedd eu hôl-osod i mewn i'r ddeddfwriaeth yn anodd.

Mae fy nhîm wedi llywio'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio hwn fel cyfle i ddatblygu amcanion newydd sy'n ystyried, mewn dull ystyrlon, sut y gallant facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau a symud tuag at ddefnyddio'r **pum dull o weithio**.

Fel canlyniad, mae Bwrdd Addysgu Iechyd Powys yn ddiweddar wedi datblygu set newydd o amcanion llesiant yng nghyd-destun eu gwaith iechyd a gofal cymdeithasol integredig, ac wedi adeiladu ar asesiad llesiant lleol eu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

Ym mhob llythyr a anfonais yn ddiweddar yn cynghori BGCau, rwyf wedi dweud fy mod yn dymuno gweld, sut, yn unigol, mae sefydliadau o gwmpas y bwrdd wedi cymryd camau rhesymol wrth ymarfer eu swyddogaethau i gyflawni amcanion y BGC. Ni ddylid gweld gwaith y BGC fel rhywbeth ar wahân i waith y cyrff sy'n aelodau ohono, nac ar wahân i fframweithiau partneriaethau eraill neu waith rhanbarthol. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gweithredu'n synhwyrol i wella llesiant pobl yn yr ardal.

Fel rhan o adolygu amcanion a chynhyrchu adroddiadau blynyddol, disgwyliaf weld sut mae cyrff cyhoeddus yn ymroi i gyfrannu i waith y BGC drwy eu hamcanion a drwy weithio gyda sefydliadau eraill yn yr ardal.

Ble ydym ni, yn ôl thema...

Rydym wedi gwneud dadansoddiad o'r 345 amcan llesiant a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn 2017 ac wedi edrych am themâu cyffredin sy'n ymddangos ar draws amcanion a champau. Nid yw hon yn wyddor fanwl gywir, o gadw mewn golwg ehangder y pynciau o dan sylw, y diffyg manylion ategol a ddarparwyd gan gyrff cyhoeddus mewn rhai achosion a gwrthrychedd y fath ddadansoddiad. Ond mae'n rhoi mewnwelediad ddefnyddiol i'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn bwriadu gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae:



99

amcan, a osodwyd gan **38** corff cyhoeddus yn ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol, presgreibio cymdeithasol, gwarchod a heneiddio'n dda

98

amcan a osodwyd gan **37** corff cyhoeddus yn ymwneud â darparu gwasanaeth, newid cyfundrefnol, hyfforddi staff neu reoli cyllid y sefydliad

74

amcan, a osodwyd gan **38** corff cyhoeddus yn ymwneud â chymunedau, cydlyniad, diogelwch, cyfleusterau a mynediad i wasanaethau

74

amcan a osodwyd gan **35** corff cyhoeddus yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant, gwella sgiliau a gwirfoddoli

59

amcan, a osodwyd gan **31** corff cyhoeddus yn ymwneud ag amgylchedd, yn cynnwys adnoddau naturiol, digwyddiadau tywydd eithafol, cydnerthedd yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd

51

amcan a osodwyd gan **29** corff cyhoeddus yn ymwneud â'r economi, twf economaidd, busnes a chreu cyfoeth

40

amcan a osodwyd gan **24** corff cyhoeddus yn ymwneud â thrafnidiaeth, cysylltedd, digideiddio a chysylltedd digidol

38

amcan a osodwyd gan **27** corff cyhoeddus yn ymwneud â diwylliant, treftadaeth, yr iaith Gymraeg, chwaraeon, twristiaeth a'r celfyddydau

29

amcan, a osodwyd gan **21** corff cyhoeddus yn ymwneud â thlodi, cydraddoldeb, tegwch, (diffyg) tai a digartrefedd

Wrth ddadansoddi'r amcanion, gellir gweld yn glir bod y mwyafrif o gyrff cyhoeddus wedi glynu wrth ei busnes craidd a heb ystyried eto sut y gallant facsimeiddio eu cyfraniad i'r **saith nod llesiant** (yn unigol neu gydag eraill) yn yr hyn a wnânt a'r modd y maent yn ei wneud.

I raddau helaeth, mae gan yr amcanion focws ar ddymuniad i wella llesiant economaidd a chymdeithasol ardaloedd, ond gydag ychydig o bwyslais ar yr amgylchedd neu ddiwylliant – er gwaethaf yr angen i ddangos sut mae'r amcanion yn cyfrannu tuag at bob un o'r **saith nod llesiant**.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant sy'n macsimeiddio'u cyfraniad i bob un o'r **saith nod llesiant**, gan ddangos sut y maent wedi ystyried eu cyfraniad presennol a sut y maent yn bwriadu gwneud mwy.

Er enghraifft, mae'r dadansoddiad hwn wedi dangos mai prin yw'r cyrff cyhoeddus sydd wedi dangos cyfraniad i Gymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang. Mae Parc Cenedlaethol Sir Benfro ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre

yn enghreifftiau o gyrff cyhoeddus lleol sydd wedi ystyried eu cyfraniad i'r nod hwn ac wedi gosod amcanion a chmau i wella.

Nid yw'r mwyafrif o gyrff cyhoeddus wedi ystyried sut y maent yn cyfrannu at Gymru fwy cydnerth ac, heblaw am barciau cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru, nid ydynt wedi dangos sut y byddant yn gwella ac yn gwarchod bioamrywiaeth.

Mae'r ddyletswydd yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r nodau llesiant cenedlaethol a ddiffinnir yn gyfreithiol i ystyried sut y gallant wella llesiant yn eu hardal. Mae'r dangosyddion cenedlaethol, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi darlun cenedlaethol o'n cynnydd yn erbyn y nodau, a gall drwytho penderfyniadau polisi a ffocysu ar y modd y gall cyrff cyhoeddus wneud cyfraniad.

Wrth adolygu amcanion llesiant ac adrodd ar gynnydd, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynegi'n well eu cyfraniad presennol a'r cynlluniau sydd ganddynt ar y gweill i gyfrannu i bob un o'r nodau.

Nid yw'n syndod i weld bod y chwe maes blaenoriaeth, sef heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, yn ymddangos ar draws y 345 amcan a osodwyd yn 2017. Mae:



97

amcan yn ymwneud â sgiliau

35

o sefydliadau cyhoeddus gwahanol wedi gosod sgiliau fel amcan



59

amcan yn ymwneud â modelau amgen ar gyfer iechyd a llesiant amgen

33

o sefydliadau cyhoeddus gwahanol wedi gosod modelau amgen ar gyfer iechyd a llesiant fel amcan



37

amcan yn ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

23

o sefydliadau cyhoeddus gwahanol wedi gosod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel amcan



32

amcan yn ymwneud â thai

21

o sefydliadau cyhoeddus gwahanol wedi gosod tai fel amcan



30

amcan yn ymwneud â thrafnidiaeth

20

o sefydliadau cyhoeddus gwahanol wedi gosod trafndiaeth fel amcan



29

amcan yn ymwneud ag ynni

23

o sefydliadau cyhoeddus gwahanol wedi gosod ynni fel amcan

Rwyf wedi edrych yn fwy manwl ar yr amcanion hyn i roi mewnwleidiad ar sut ddylai cyrff cyhoeddus wella'r modd y maent yn dangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i'w cyflawni.



Sgiliau

I'r mwyafrif o gyrff cyhoeddus sydd wedi gosod amcanion a champau'n ymwneud â sgiliau, mae'r pwyslais ar sut y dylid datblygu sgiliau i gyflawni anghenion yr economi. Er enghraifft, 'Datblygu gweithlu medrus i gyflawni galwadau busnes yn y presennol a'r dyfodol.' Er bod hyn yn ddealladwy, mae hwn yn ffocws cul sydd wedi cyfyngu'r ffordd mae cyrff cyhoeddus hefyd yn ystyried datblygiad sgiliau ac addysg fel dull o wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Wrth ystyried amcanion yn ymwneud â sgiliau, mae'r mwyafrif o gyrff cyhoeddus wedi anwybyddu'r prosesau ehangach cymdeithasol a diwylliannol sy'n dylanwadu ar gyfleoedd cyflogaeth, megis rhywedd, ethnigrwydd, profiadau yn ystod plentyndod ac amgylchedd. Mae yna rai eithriadau, lle mae cyrff cyhoeddus wedi disgrifio ennill sgiliau fel modd o wella agweddau eraill ar fywyd – nid yn unig lesiant economaidd. Er enghraifft, mae Chwaraeon Cymru wedi nodi mai un o'u hamcanion yw i 'Blant a phobl ifanc gael yr ysgogiad, y sgiliau corfforol, gwybodaeth, dealltwriaeth a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol drwy gydol eu bywyd.'

Mae'r amcanion a'r camau sy'n ymwneud â sgiliau yn tueddu i fod yn amwys gan ragdybio y bydd addysg a sgiliau'n gwella ansawdd bywyd – heb archwilio beth a olyga hyn yn ymarferol mewn ardal, neu gyfeirio at ffactorau eraill sy'n effeithio ar lesiant pobl. Er enghraifft, mae cyrff cyhoeddus wedi gosod amcanion megis 'Datblygu gweithlu â sgiliau lluosog' gyda dim ond ychydig o eglurhad am sut, ac am ba sgiliau fydd yn cael eu datblygu a gan bwy, a pha wybodaeth sy'n cael ei defnyddio i edrych ar ba sgiliau fydd eu hangen yn yr ardal yn yr hirdymor?



Tai

Mae'r mwyafrif o amcanion sy'n berthnasol i dai yn seiliedig ar wella argaeledd stoc dai fforddiadwy, er enghraifft, 'Cynyddu cyflenwad tai o ansawdd da.' Mae'r camau i gyflawni'r amcanion hyn yn tueddu i fod yn seiliedig ar wella stoc i gwrdd â'r galw a phrin yw'r wybodaeth ar sut mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yr effaith a gaiff cynyddu argaeledd tai ar ardal – diogelwch cymuned, bywiogrwydd, iechyd, cydlynad, treftadaeth.

Mae rhai cyrff cyhoeddus wedi gosod amcanion a champau sy'n berthnasol i dai ac ynni. Er enghraifft, mae Cyngor Abertawe wedi cymryd camau i 'adeiladu cartrefi Cyngor sy'n fwy effeithlon o ran ynni...' ac mae Cyngor Sir Benfro wedi cymryd camau i 'archwilio potensial ar gyfer datblygu tai carbon isel fforddiadwy.' Ond yn gyffredinol, prin yw'r wybodaeth ar effaith amgylcheddol gwella argaeledd tai, megis pa ddeunyddiau a gaiff eu defnyddio, sut fydd yr effaith amgylcheddol yn cael ei fonitro dros amser, beth fydd ffynhonnell y deunyddiau – a yw'n foeseogol a lleol ble bynnag mae hynny'n bosib? Mae hyn yn dangos diffyg cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd i edrych ar eu gweithrediadau drwy lens y **saith nod llesiant cenedlaethol**.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod cyrff cyhoeddus wedi ystyried sut y maent yn mynd i ddatrys tensiynau rhwng cynyddu argaeledd a fforddiadwyedd y stoc dai a chreu manau diwylliannol bywiog, cydlynol a chynaliadwy a fydd yn cyfrannu tuag at lesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.



Presgreibio cymdeithasol

Mae'r mwyafrif o amcanion sy'n berthnasol i bresgreibio cymdeithasol yn ymwneud â hybu ffyrdd o fyw gweithgar – yn nhermau gweithgaredd corfforol yn ogystal ag ymgyfrannu'n egniol yn y gymuned. Mae llawer hefyd yn ffocysu ar gyfrifoldeb yr unigolion i gynnal eu hiechyd eu hunain. Er enghraifft, 'Annog pobl i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain'. Yn y mwyafrif o ddatganiadau llesiant sy'n crybwyll presgreibio cymdeithasol, mae'r ffactorau ehangach sy'n cyfrannu tuag at lesiant unigolyn – cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, yn cael eu hanwybyddu.

Fel gyda themâu eraill, nid yw'n glir o'r datganiadau llesiant sut mae cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd yn edrych yn feirniadol ar eu gwasanaethau a'u hymyriadau. Prin yw'r cyfeiriadau at y modd y mae manau agored yn medru cyfrannu tuag at wella llesiant. Dylai cyrff cyhoeddus roi mwy o wybodaeth am y modd y maent yn ystyried a yw cynlluniau presgreibio cymdeithasol yn effeithiol, gan ofyn cwestiynau os nad ydynt yn gweithio, ac ymroi i ddeall penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant.



Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)

Mae'r mwyafrif o'r amcanion sy'n ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn berthnasol yn bennaf i'r ymgais i leihau neu atal effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar unigolion yn bersonol. Er enghraifft, 'Darparu ymyriad cynnar a gwasanaethau atal i sicrhau bod plant yn ddiogel, a lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.' Fodd bynnag prin yw'r manylion am y camau a fyddant yn eu cymryd i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, neu sut y maent yn archwilio'r dulliau gorau o'u hatal.

Mae'n rhaid i'r broses o fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod fod yn gyfrifoldeb i'r system gyfan, nid yn unig yn nhermau ymwybyddiaeth ond yn nhermau'r modd y mae'r system yn gweithio. Mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn ystyried pa mor llwyddiannus ydyw'r gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn ymateb i deuluoedd lle mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn digwydd, gan ofyn a ydynt yn addas at y diben yn nhermau atal profiadau niweidiol

parhaus ymhlith plant a theuluoedd. Byddai cymhwyso'r **pum dull o weithio** i'r mater hwn yn golygu bod gwasanaethau i deuluoedd mewn cyfiawnder troseddol, tai, gwasanaethau cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, ac eraill yn cael eu comisiynu, eu hadolygu a'u hintegreiddio wrth geisio atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac ymateb iddynt.



Ynni

Wrth osod amcanion llesiant sy'n ymwneud ag ynni, mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi edrych ar eu sefydliadau hwy eu hunain a'u gweithrediadau. Er enghraifft, 'Lleihau allyriadau carbon o asedau Cyngor', neu 'Cymryd camau i wella ôl-troed carbon yr Awdurdod'. Mae cyrff cyhoeddus hefyd yn ymroi i wella effeithlonrwydd ynni ac mae rhai yn cysylltu amcanion llesiant ar ynni â thrafnidiaeth a seilwaith – gan ddangos ymagwedd sy'n fwy perthnasol i system gyfan. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys amcan i 'wella rhwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus integredig (diogel, dibynadwy, fforddiadwy a charbon isel)'.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, prin yw'r cyrff cyhoeddus sy'n edrych ar y saith maes craidd a nodwyd yn y canllawiau statudol fel rhai sy'n gofyn am newid (megis caffael ac asedau) i leihau eu hól-troed carbon. Wrth ystyried sut y maent ar hyn o bryd yn cyfrannu at y **saith nod llesiant**, buaswn yn disgwyl gweld pob corff cyhoeddus yn cydnabod effaith eu gweithgareddau ar yr amgylchedd ac ar y newid yn yr hinsawdd gan chwilio am dulliau o leihau hyn.

Mae'r rhai hynny sydd wedi gosod amcanion mewn perthynas ag egni'n ffocysu'n bennaf ar sut fydd lleihau allyriadau yn lliniaru effaith ynni carbon uchel ar yr amgylchedd, sydd yn gyfraniad arwyddocaol tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru i weld sector cyhoeddus di-garbon erbyn 2030. Fodd bynnag, nid yw datganiadau llesiant eto wedi awgrymu pa rôl y medrent ei chwarae i wneud mentrau ynni adnewyddadwy yn fwy fforddiadwy a hygyrch i gymunedau lleol neu herio agweddau busnes tuag y defnydd a wnânt o ynni?



Trafnidiaeth

Mae'r cyrff cyhoeddus hynny sydd wedi gosod amcanion llesiant a chamau mewn perthynas â thrafnidiaeth yn ffocysu'n bennaf ar gysylltedd – ar gyfer twf economaidd, cysylltu pobl â gwasanaethau lleol neu gymwysterau a chysylltiadau ag ardaloedd eraill. Er enghraifft, 'Datblygu'r seilwaith trafndiaeth a safleoedd cyflogaeth'. Mae'n gadarnhaol bod rhai cyrff cyhoeddus wedi datgan eu bod yn edrych ar ddulliau cynaliadwy o deithio, ond prin yw'r dystiolaeth hyd yn hyn beth allai hyn fod.

Wrth ddefnyddio'r **pum dull o weithio** i drwytho penderfyniadau polisi, dylai cyrff cyhoeddus ofyn sut allai seilwaith trafndiaeth effeithio ar lesiant eu cymunedau a'r rhai hynny mewn ardaloedd cyfagos. Sut fedr cyrff cyhoeddus gynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol (fel rhan o gynlluniau datblygu lleol) mewn ffordd sy'n cyfrannu tuag at Gymru fwy cyfrifol yn fyd-eang a Chymru gydnerth? Sut fedrant ymroi i greu cymunedau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, a lle mae diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn rhan hanfodol ohonynt, sydd yn ddiogel, yn gydlynol a hyfyw gyda chysylltiadau da?

Trafnidiaeth ac ynni yw'r ddau beth mwyaf fedr cyrff cyhoeddus ddylanwadu arnynt yng nghyd-destun y newid yn yr hinsawdd. Mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb mewn

perthynas â thrafnidiaeth, cynllunio a seilwaith a rhaid iddynt yn awr ystyried hyn o bersbectif y **saith nod llesiant** a sut mae'r **pum dull o weithio**'n fframio eu meddyliau.

Mae fy nyletswyddau fel Comisiynydd yn golygu nad oeddwn yn medru cyngori cyrff cyhoeddus ar yr amcanion a'r camau a osodwyd ganddynt yn 2017, ond rwyf wedi rhoi cyngor i'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGCau). Mae'r adborth hwn ar eu hasesiadau llesiant a'r cyngor ar eu hamcanion drafft wedi arwain at ymddangosiad themâu'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar, sgiliau, a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod bron ym mhob un o'r cynlluniau llesiant lleol a fabwysiadwyd gan FGCau yng Nghymru. Ar ôl bod fwy neu lai yn absennol o gynlluniau cymunedol blaenorol, megis y Cynlluniau Integredig Sengl a gyhoeddwyd yn 2013, mae'r amgylchedd, cydnerthedd amgylcheddol a gwarchod cynefinoedd yn ymddangos yn eglur yn amcanion drafft 16 o'r 19 BGCau, sy'n wahanol i amcanion llesiant presennol cyrff cyhoeddus.

Mae'n addawol i weld BGCau yn ymroi i wella pob agwedd o lesiant drwy osod amcanion a chamau sy'n holistig, ac rwy'n teimlo'n obeithiol y bydd pob un o'r cyrff cyhoeddus yn adolygu eu hamcanion llesiant eu hunain gan gadw hyn mewn golwg.

Enghraifft

Prosiect NHS Forest

Mae'r NHS Forest yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a sefydliadau i greu mannau agored gwyrdd at ddibenion iechyd. Mae'r ystod o raglenni'n ymroi i ysbrydoli gweithwyr iechyd proffesiynol i ddefnyddio mannau agored gwyrdd i wella ffordd cleifion o fyw a chynorthwyo prosesau adfer.

Prosiect oedd NHS Forest i ddatblygu cydweithio cyffredinol rhwng llawer o bartneriaid o feysydd amgylchedd ac iechyd, a chaiff ei gydlynu gan yr elusen Centre for Sustainable Healthcare (CSH) sy'n ffocysu ar y croestoriad rhwng iechyd a chynaliadwyedd. Ei nod yw annog mwy o gydlynad cymdeithasol rhwng safleoedd y GIG a'r cymunedau lleol o'u cwmpas, sbarduno prosiectau sy'n dwyn pobl broffesiynol at ei gilydd i ddefnyddio gofod sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau celfyddydol, tyfu bwyd, myfyrio, ymarfer corff ac annog bioamrywiaeth.

Wedi ei sbarduno gan bryder ynglŷn ag effaith y newid yn yr hinsawdd ar lesiant pobl a'r amgylchedd, mae gweithwyr CSH yn gweithio i ysbrydoli a chynorthwyo'r GIG i leihau eu lefelau llygredd carbon a dod yn fwy cynaliadwy. Ariannwyd y cynnod pilot gan y Comisiwn Coedwigaeth a Natural England, ond mae yna bedwar safle yng ngogledd Cymru, un mewn practis Ymarferwyr Cyffredinol, dau mewn canolfannau hamdden ac un mewn practis deintyddol.

Gwylwch y fideo yn y fan hon:

Enghraifft

Prosiect carbon positif Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio'r Ddeddf fel cyfle i ddeall a gweithredu ar effaith carbon ei sefydliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais hirdymor ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i fod yn ddi-garbon erbyn 2030 ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gosod amcanion llesiant megis 'Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy'. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n edrych ar eu cyfrifoldebau hwy eu hunain fel sefydliad i gyflawni'r amcan hwn a chymryd cam i 'Hyrwyddo ac adeiladu ar ein statws carbon-positif a datblygu i fod yn esiampl'.

Dim ond 12% o'u hallyriadau oedd yn dod o ddefnydd uniongyrchol (e.e. trydan neu danwydd cerbydau), tra'r oedd 88% yn dod o ddefnydd anuniongyrchol fel cadwyni caffael a gwasanaethau, cludo coed a chymudo staff. Nodasant bedwar maes ar gyfer gweithredu: adeiladau, trafniadaeth, tir ac asedau gweithredol, a chaffael – gan gwmpasu llawer o'r saith maes craidd sy'n gofyn am newid yng nghanllawiau statudol y Ddeddf.

Maent wedi datblygu dros 20 o brosiectau i arddangos cyfleoedd ar gyfer lleihau allyriadau neu warchod stociau carbon, yn cynnwys gosod goleuadau LED yn eu hadeiladau, gosod PV solar ar eu hadeiladau, cyflwyno ceir trydan i mewn i'w fflyd, plannu coetiroedd ac adfer mawndiroedd a threialu dulliau o leihau allyriadau drwy eu cadwyn gyflenwi.

Dywed Cyfoeth Naturiol Cymru bod ennyn ymgyfraniad staff ar draws eu sefydliad yn hynod bwysig, gan nodi bod disodli 56% o'u fflyd gan gerbydau trydan wedi arwain at leihad o 21% mewn allyriadau o'u fflyd, gan arbed £136,000 a 413 tunnell o CO2 y flwyddyn.

Enghraifft

Caerdydd heddiw, Caerdydd yfory

Mae BGC Caerdydd wedi datblygu 'Caerdydd heddiw, Caerdydd yfory', yn eu cynllunio llesiant a chynllunio corfforaethol ar gyfer y Cyngor. Mae'r BGC wedi meddwl am y tueddiadau hirdymor a'r risgiau i'r ddinas a sut y medrant fabwysiadu gweithredu cydweithredol yn awr i atal problemau rhag gwaethgu. Nodwyd twf yn y boblogaeth a materion trafniadaeth cysylltiedig fel problemau.

Er enghraifft, Caerdydd heddiw 'Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf gwelwyd twf o 12% ym mhoblogaeth Caerdydd sy'n ei gwneud yn un o'r dinasoedd mawr sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain... mae dros 90,000 o bobl yn teithio mewn ac allan o Gaerdydd bob dydd o ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos, 80% mewn car.'

Meddwl yn yr hirdymor am natur Caerdydd yfory: 'Dros yr 20 mlynedd nesaf, disgwylir i Gaerdydd dyfu'n gyflymach nag unrhyw ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru ac yn gyflymach na phob un o'r dinasoedd mawr ac eithrio Llundain... Gyda thwf, rhagwelir cynnydd o 32% mewn trafniadaeth, cynnydd o 20% yn niferoedd y bobl sy'n cymudo i'r gwaith a chynnydd cysylltiedig mewn amserau teithiau o ryw 41%'.

Mae'r BGC wedi cytuno i gymryd cam tuag at 'geisio gwneud 50% o'r teithiau hynny yng Nghaerdydd yn deithiau cynaliadwy drwy gynorthwyo datblygiad a darpariaeth Strategaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd'.

Yn fwy diweddar, mae Cyngor Caerdydd wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd, **Newid sut rydym yn symud o gwmpas dinas sy'n tyfu**, sy'n nodi syniadau ar sut y byddant yn cymryd camau i gyflawni'r amcan hwn.

Enghraifft

Helpu pobl i fyw bywydau iach a mynd i'r afael â gordewdra

Sut fedrech chi facsimeiddio eich cyfraniad i'r **saith nod llesiant**, wrth ystyried sut i gyflawni'r amcan hwn:

Cymru lewyrchus

A yw siopau a busnesau yn yr ardal yn cyfrannu at amgylchedd obesogenig neu amgylchedd sy'n creu straen megis siopau bwyd cyflym, siopau hapchwarae neu ddiffyg manau agored gwyrdd?

Sut mae pobl yn cael eu cynorthwyo i ddod o hyd i swyddi gweddus ac addysg sy'n rhoi pwrpas, gwerth a chyfoeth? (nid swyddi tâl-isel neu sgiliau isel).

Cymru gydnerth

Sut mae pobl yn cysylltu â'u hamgylchedd naturiol a pha gyfleoedd ellir eu darparu ar eu cyfer i'w galluogi i weithio'n galed i wella bioamrywiaeth yr ardal?

A oes yna fentrau lleol sy'n tyfu bwyd eisoes mewn bodolaeth?

Sut mae deall yr ecosystem yn helpu pobl i reoli eu bywydau eu hunain e.e. deall effaith ansawdd aer, llifogydd, gwres eithafol a dirywiad manau gwyrdd ar ein llesiant?

Cymru iachach

Sut mae pobl yn medru cynnal a gwella eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain?

Sut mae ymagwedd arloesol yn cael ei defnyddio i helpu pobl i gadw'n iach neu reoli eu pwysau?

Sut mae ymagweddau ataliol yn cael eu hystyried ar bob lefel, i sicrhau fod pobl yn cadw'n iach ac yn osgoi tyfu'n ordew?

Cymru sy'n fwy cyfartal

Sut yr eir i'r afael ag effaith anghymesur iechyd gwael a phwysau afiach ar y rhai hynny mewn tlodi?

Sut fedr ymddygiadau cadarnhaol iach fod yn fwy deniadol a hygyrch i bawb?

A yw gordewdra'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol yn y gymuned? Sut y gellir targedu gwelliannau.

Cymru o gymunedau cydlynus

A yw trafnidiaeth gyhoeddus yn fforddiadwy a hygyrch, yn annog teithio llesol, yn arbennig deithiau byr, dyddiol, megis cymudo?

Beth yw rôl asedau cymunedol allweddol yn y dasg o helpu pobl i reoli eu pwysau?

Pa asedau sy'n bodoli eisoes yn y gymuned a fedrai helpu pobl i reoli eu pwysau, megis yr amgylchedd naturiol, cyfleusterau chwaraeon a chwarae, gweithgareddau diwylliannol a llwybrau cerdded neu feicio?

A oes gan bawb fynediad cyfartal i wella eu hiechyd lle bynnag maent yn byw mewn ardal?

Sut y gall bwyd iach ddod â phobl o bob cefndir at ei gilydd a lleihau stigma cymdeithasol sy'n gysylltiedig â bod yn ordew ?

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Pa gyfleoedd sy'n bodoli i wella llesiant drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol?

Sut fedr gwahanol fentrau megis y celfyddydau, chwaraeon a chyfleoedd iaith, annog pobl i ymgysylltu wrth wella'u llesiant personol a llesiant cymunedol?

A yw pobl yn medru cyrchu gwasanaethau a rheoli eu pwysau yn yr iaith o'u dewis?

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Pa gyfleoedd sydd ar gael i bobl dyfu eu bwyd eu hunain ac felly leihau eu heffaith ar yr amgylchedd?

Pa gadwyni cyflenwi lleol ellir eu creu i alluogi pobl i gyrchu cynnyrch cynaliadwy Masnach Deg?

Defnyddio'r pum dull o weithio i herio'r modd y gellir cyflawni'r amcan hwn:

Hirdymor

Beth yw'r tueddiadau allweddol yn y dyfodol a senarios sy'n berthnasol i'r amcan hwn? Pa wybodaeth am y tueddiadau hyn sydd ar gael a beth sydd ar goll?

Beth yw canlyniadau hirdymor gordewdra, sy'n pontio cenedlaethau?

Pa gyfleoedd ellid eu darparu ar gyfer rheoli pwysau'n fwy effeithiol yn yr hirdymor? Er enghraifft gallai awtomeiddio gwasanaethau iechyd cyffredinol i raddau helaethach alluogi mwy o adnoddau ar gyfer atal gordewdra mewn plant.

Atal

Beth sydd angen i ni fuddsoddi ynddo nawr i atal cylchoedd o bwysau afiach rhag parhau?

Sut fedrwn ni atal pobl â phwysau afiach eisoes, rhag dod yn fwy gordew?

Pa ymagweddau arloesol, megis presgreibio cymdeithasol, ellir eu mabwysiadu i atal ennill pwysau?

Ymgyfraniad

Sut mae gwasanaethau'n deall profiadau bywyd pobl wrth gyflawni'r amcan hwn, a beth sy'n achosi iddynt ennill pwysau?

Ym mha fodd y mae pobl yn ymgyfrannu wrth ddiffinio beth yw ystyr 'iach' iddynt hwy, wrth egluro sut y gallant gyfrannu tuag at eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a lleihau'r stigma cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gordewdra?

Sut mae'r dysgu a'r deialog blaenorol gyda phobl yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau?

Cydweithio

Sut fedr sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, ddod at ei gilydd i reoli gordewdra yn well?

I ba raddau y mae cydweithio presennol ar reoli pwysau yn gweithio ac oes yna unrhyw gyfleoedd a gollwyd?

A yw'r modd y mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd yn gwneud synnwyr i'r rhai sy'n eu defnyddio?

Integreiddio

Sut mae gwasanaethau sy'n anelu at leihau gordewdra'n cael eu hintegreiddio?

Sut fedr rheoli pwysau'n well gyflawni gwell llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol?

Sut mae'n cysylltu ag amcanion eraill y corff cyhoeddus, cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus lleol?

Disgwyliadau adroddiadau blynyddol

Fel yr eglurwyd, nid oes gennyf y ddyletswydd i gynghori cyrff cyhoeddus ar eu hamcanion llesiant ond gallai fy mhwerau gynnwys gwneud hynny. Mae gen i ddyletswydd i fonitro ac asesu i ba raddau mae amcanion yn cael eu gwireddu, ac mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyletswydd i archwilio i ba raddau mae'r amcanion wedi cael eu gosod gan ddefnyddio'r pum dull o weithio.

Mae fy nyletswyddau i a rhai Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi eu canoli ar sut mae angen i ddiwylliant ac ymddygiad newid i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac economaidd Cymru. Mae angen i'r sector cyhoeddus weithredu mewn ffyrdd newydd ac mae adrodd hyn i eraill yn heriol, ond yn angenrheidiol. Mae aelodau'r cyhoedd yn dymuno gweld cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r Ddeddf wrth wneud penderfyniadau a deall sut mae cynnydd yn cael ei wneud tuag at wella llesiant yn eu hardal.

Rwyf eisoes wedi rhoi enghreifftiau o gynnydd ac wedi disgrifio sut y gellir gwella datganiadau llesiant yn y dyfodol.

Mae cyrff cyhoeddus yn awr wedi cyrraedd y pwynt lle gellir myfyrio ar y flwyddyn gyntaf o weithio tuag at eu hamcanion, a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn ystod 2017/18 erbyn 31ain Mawrth 2019.

I bobl Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a minnau, fel Comisiynydd, mae'r adroddiadau hyn yn ddangosyddion pwysig o'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r amcanion a osodwyd ganddynt – i ba raddau y maent yn gwella llesiant pobl Cymru?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut'. Rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos 'beth' y maent yn ei wneud – rhywbeth yr ydym yn gymharol gyfarwydd ag adrodd amdano – ond hefyd 'sut' yr ydym yn ei wneud – a fedr fod yn anoddach i'w egluro.

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn gosod yr hyn yr hoffwn ei weld yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau blynyddol.

Disgwyliad 1:

Amcanion llesiant a nodau

Rhaid i gyrff cyhoeddus;

- *Amlinellu'n glir beth yw eu hamcanion llesiant a'r camau y maent yn eu cymryd i'w cyflawni. Rhaid i hyn gynnwys sut mae'r **pum dull o weithio a'r saith nod llesiant cenedlaethol** wedi cael eu defnyddio i drwytho gosodiad yr amcanion a'r camau*
- *Amlygu sut mae'r sefydliad yn bwriadu maxsimeiddio ei gyfraniad tuag at y **saith nod llesiant cenedlaethol** a chyfeirio at y saith maes craidd sy'n gofyn am newid yn y canllawiau statudol*
- *Roi gwybodaeth ar y modd y mae adnoddau wedi cael eu defnyddio i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.*

Cwestiynau a allai darlennydd eu gofyn

Pam ydych chi wedi dewis yr amcan llesiant hwn? Beth a wnaeth i chi osod yr amcan hwn ac nid un arall? Sut fyddwch chi'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy gyflawni'r amcanion hyn? Pryd ydych chi'n credu fyddwch chi'n cyflawni'r amcan hwn?

Fel mae rhan 5 yr adroddiad hwn yn egluro, nid yw cyrff cyhoeddus eto'n rhoi digon o dystiolaeth i ddisgrifio sut y maent wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac ystyried y **saith nod llesiant** wrth osod eu hamcanion a'u camau. Mae'r datganiadau llesiant yn gymysg a gwahaniaethau clir mewn ymagwedd ymhlith gwahanol adrannau o fewn cyrff cyhoeddus, sydd weithiau yn ôl-osod eu gwaith yn erbyn y **pum dull o weithio a'r saith nod**, yn hytrach na disgrifio sut y maent wedi trwytho eu meddyliau a'u penderfyniadau.

Er bod angen i ddatganiadau llesiant ac adroddiadau blynyddol fod yn glir, dylent hefyd fod yn ysbrydoledig gan ddathlu gwaith y sefydliad er mwyn i bobl ddeall sut mae'r corff cyhoeddus yn gwella llesiant yn yr ardal.

Nid yw gosod amcanion yn disbyddu dyletswydd cyrff cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod gosod amcanion a chamau yn ddull, ond nid yr unig ddull, o gyflawni'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Dylai datganiadau llesiant roi gwybodaeth ar sut mae adnoddau, yn cynnwys rhai ariannol, yn mynd i gael eu clustnodi bob blwyddyn, at y diben o gymryd camau i gyflawni amcanion. Dylai adroddiadau blynyddol roi dystiolaeth o'r modd y mae hyn wedi ei sylweddoli yn ystod y flwyddyn ac a oes rhwystrau arbennig wedi atal y corff cyhoeddus rhag gwneud cynnydd tuag at ei amcanion llesiant a'i gamau.

Dylai cyrff cyhoeddus ddisgrifio sut y maent wedi ystyried yr ymyriadau oedd eu hangen i fynd i'r afael ag ehangder y mater. A oes digon o adnoddau wedi eu clustnodi neu a oes prinder adnoddau?

Disgwyliad 2:

Egwyddor datblygu cynaliadwy

Rhaid i adroddiadau blynyddol ddisgrifio sut mae'r sefydliad yn gwneud synnwyr o'i ddyletswydd i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac egluro sut mae hyn yn cyd-daro â dyletswyddau deddfwriaethol eraill (neu gyfeirio'r darlennydd at fwy o wybodaeth), eu hamcanion corfforaethol, cynllunio busnes a gwasanaethau gweithredol.

Cwestiynau a allai darlennydd eu gofyn

Sut ydych chi'n cyflawni eich dyletswyddau sy'n ymwneud â chydraddoldeb? Sut ydych chi'n cyflawni eich dyletswyddau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth? Ble fedra i ddarllen mwy am y modd yr ydych yn hybu'r iaith Gymraeg fel sefydliad? Sut ydych chi'n defnyddio eich pwerau presennol yn wahanol yn awr o'i gymharu ag yn y cyfnod cyn i'r Ddeddf ddod i rym?

Darganfu Archwilydd Cyffredinol Cymru bod yr her yn parhau i gyrff cyhoeddus egluro'n well sut y maent yn bwriadu newid eu ffordd o weithio. Fel a gaiff ei ddatgan yng nghanllawiau statudol y Ddeddf, rhaid i gyrff cyhoeddus ddefnyddio datblygu cynaliadwy i lunio beth yr ydych yn ei wneud a sut yr ydych yn ei wneud a sut yr ydych yn cyfleu (drwy adrodd) y gwahaniaeth yr ydych yn ei wneud.

Nid yw'n glir i mi o ddarllen datganiadau llesiant sut mae'r sefydliad yn gwneud synnwyr o'i ddyletswyddau a sut mae hyn yn berthnasol i deddfwriaeth arall, eu hamcanion corfforaethol, cynllunio busnes a busnes o ddydd i ddydd. Dylai'r adroddiad blynyddol fod yn rhan annatod o waith y sefydliad ac ni ddylai'r egwyddor datblygu cynaliadwy gael ei folltio arno, fel darn ar wahân.

Nid oes rhaid i amcanion llesiant a chamau gwmpasu popeth a wneir gan gorff cyhoeddus, er y gall y Ddeddf helpu i integreiddio dyletswyddau drwy'r defnydd o'r **pum dull o weithio** a chyfraniad i'r **saith nod llesiant**. Lle nad yw dyletswydd statudol yn cael ei chyflawni gan yr amcanion a'r camau a osodwyd gan y corff cyhoeddus, byddai cyfeirio at ddogfen wahanol yn ddefnyddiol.

Disgwyliad 3:

Edrych ymlaen

Tra'n cydnabod bod newid yn cymryd amser

- *Rhaid i gyrff cyhoeddus fynegi a disgrifio beth yn union a olyga cyflawni eu hamcan iddynt hwy a nodi ble yr hoffent fod mewn 5, 10, 15, 25 o flynyddoedd a thu hwnt.*

Cwestiynau a allai darlennydd eu gofyn

Pryd fyddwch chi'n cyflawni'r amcan hwn? Sut fyddwch chi'n gwybod? Beth yw eich criteria ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yn llwyddiannus? Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i lwyddo?

Mae fy adolygiad o ddatganiadau llesiant yn awgrymu mai prin yw'r cyrff cyhoeddus sydd wedi disgrifio beth yn union a olyga defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy iddynt hwy a sut y byddant fel sefydliad yn gweithredu i gyflawni hyn. Nid yw cyrff cyhoeddus eto'n defnyddio'r dogfennau hyn i ddiffinio beth yn union a olyga cyflawni eu hamcanion iddynt hwy a sut y maent yn bwriadu cyrraedd pen y daith.

Mae arwain y ffordd mewn dull sy'n cael ei ddeall gan yr holl sefydliad yn hollbwysig os yr ydynt i wireddu eu huchelgeisiau a macsimeiddio'r cyfleoedd a gynhwysir yn y Ddeddf.

Disgwyliad 4:

Olrhain cynnydd

Rhaid i gyrff cyhoeddus egluro yn eu hadroddiadau blynyddol i ba raddau y maent wedi cymryd camau i gyflawni eu hamcanion, pa mor effeithiol fu'r camau hyn, sut y maent yn olrhain cynnydd a sut y maent yn mabwysiadu neu addasu i ddulliau newydd o ddangos cynnydd.

Cwestiynau a allai darlennydd eu gofyn

Beth ydych chi wedi ei wneud hyd yn hyn? Beth a olyga hyn i mi? Ble ydych am fod ar y mater hwn yn y 5,10,15, 25 mlynedd nesaf a thu hwnt? Sut fyddwch chi'n cyrraedd pen y daith? Sut fyddaf i'n gweld gwelliant yn fy ardal leol neu yn fy mywyd?

Yn yr un modd, rhaid i adroddiadau ariannol amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gan gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu hamcanion. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ganlyniadau ac allbynnau, yn hytrach nag ar ymrwymadau a mewbynnau a wnaed yn y gorffennol. Pa ymyriadau sy'n cael yr effaith fwyaf? Beth sydd heb weithio'n dda ac sydd hwyrach angen ei adolygu?

Ar hyn o bryd, mae llawer o gyrff cyhoeddus yn mabwysiadu dangosyddion perfformiad traddodiadol i olrhain eu cynnydd, yn seiliedig ar ddata ystadegol. Tra bo'r dull hwn yn ddefnyddiol, mae'n bwysig ein bod yn mesur yr hyn sy'n bwysig, nid yn unig yr hyn y gellir ei gyfrif. Rwyf yn gwerthfawrogi bod hyn yn cymryd amser, ond disgwyliaf weld gyrff cyhoeddus yn archwilio dulliau eraill o ddiffinio eu heffaith a monitro eu cynnydd i adrodd yn glir ar hyn.

Bydd y cerrig milltir a osodir gan Lywodraeth Cymru angen eu deall a'u perchnogi gan bawb. Bydd y rhain yn helpu gyrff cyhoeddus i ddeall y cynnydd a'r cyflymder sy'n ofynnol o dan y Ddeddf fel ein bod i gyd yn cyflawni'r **saith nod llesiant cenedlaethol**.

Disgwyliad 5:

Defnyddio a gweithredu'r Ddeddf

Rhaid i adroddiadau blynyddol

- *amlinellu sut mae'r saith maes sy'n gofyn am newid corfforaethol yng nghanllawiau'r Ddeddf wedi peri iddynt gychwyn addasu eu dulliau o weithio.*
- *disgrifio sut yr effeithiwyd ar benderfyniadau fel canlyniad i ddefnyddio'r Ddeddf.*
- *rhoi enghreifftiau o'r hyn y maent yn ei wneud yn wahanol ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu a beth sydd ganddynt nesaf ar y gweill.*

Mae'n hollbwysig bod cyrff cyhoeddus yn dathlu'r newidiadau syml hyn yn eu hadroddiad blynyddol a datganiadau llesiant y dyfodol.

Cwestiynau a allai darlennydd eu gofyn

Beth sy'n newydd ac yn wahanol i'r ffordd yr oedd pethau'n cael eu gwneud yn y gorffennol? Sut ydych chi mewn gwirionedd yn newid pethau ar lawr gwlad? Sut mae'r pethau hyn yn cyfrannu tuag at gyflawni'ch amcanion? Sut maen nhw'n cyfrannu tuag at y nodau llesiant? Sut mae systemau a gwasanaethau wedi eu hastudio'n feiriadol a'u haddasu, gan ddefnyddio'r Ddeddf? Sut fydddech chi'n egluro cynnydd i blentyn yn 2043? Beth ydych chi'n ei wneud yn awr a fydd yn effeithio ar lesiant hirdymor Cymru?

Mae'r canllawiau ar gyfer y Ddeddf hefyd yn nodi ble mae angen i newid ddigwydd o fewn saith swyddogaeth gorfforaethol sefydliad – risg, rheoli perfformiad, cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, asedau a chaffael. Rhain yw'r rhannau o'r sefydliad a ddylai fod yn ymroi i wneud pethau'n wahanol ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno, oherwydd eu bod yn effeithio ar weddill gwasanaethau'r sefydliad.

Rwyf wedi rhoi enghreifftiau o'r modd y mae rhai cyrff cyhoeddus eisoes wedi mabwysiadu newidiadau o fewn eu sefydliadau a disgwyliaf weld rhagor yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiadau blynyddol. Dylai adroddiadau blynyddol ddisgrifio pa wahaniaeth mae'r Ddeddf yn ei wneud i'r modd y byddai sefydliad fel arfer wedi gweithredu. Sut mae'r Ddeddf wedi effeithio ar benderfyniad? A wnaeth hyn newid y canlyniad? A yw busnes o ddydd i ddydd yn cael ei effeithio? Dylai adroddiadau blynyddol ddisgrifio beth sy'n wahanol i bob corff cyhoeddus yn y gwasanaethau corfforaethol hyn a pha newidiadau pellach sydd ar y gweill.

Mae angen i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant a champau clir sy'n sbarduno gwaith y sefydliad. Mae angen i'r rhain gael eu cyfleu i'r holl staff ac mae angen i weithwyr ddeall eu pwysigrwydd. Dylai pawb yn y sefydliad yn defnyddio'r **pum dull o weithio** wrth gyflawni eu gwaith ac yn ymroi i facsimeiddio cyfraniad y corff cyhoeddus i'r **saith nod llesiant**. Byddai arwydd clir o bwy sy'n craffu ar hyn yn y sefydliad ac oddi allan.

Ar ôl y flwyddyn gyntaf hon, mae'r adroddiad hwn a gwaith Swyddfa Archwilio Cymru wedi dangos nad ydym eto wedi cyrraedd y nod, ond rydym yn gweld cynnydd yn egino. Fodd bynnag, yn aml ni chaiff yr enghreifftiau hyn eu hadlewyrchu mewn amcanion a champau llesiant sefydliad ond maent yn digwydd mewn mannau eraill. Dylai cyrff cyhoeddus ystyried sut y maent yn mynegi'r hyn y maent wedi ei wneud yn wahanol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Disgwyliad 6:

Hunan-fyfyrio

- *Dylai cyrff cyhoeddus ail-edrych yn feirniadol ar eu hamcanion llesiant ac ystyried pa mor addas at y diben y maent flwyddyn yn ddiweddarach.*
- *Lle mae amcanion wedi cael eu hadolygu a'u newid, dylai hyn gael ei fynegi'n glir yng nghyd-destun y **pum dull o weithio** a'r **saith nod llesiant cenedlaethol**.*
- *Dylai adroddiadau fod yn hunan-fyfyriol, gan ddisgrifio sut mae'r Ddeddf wedi cael ei defnyddio, y tensiynau a gododd wrth geisio ei defnyddio a'r gwersi a ddysgwyd fel canlyniad i ddefnyddio'r Ddeddf.*

Disgwyliad 7:

Cydweithio gyda Chyrff Cyhoeddus eraill

Wrth i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGCau) gyhoeddi eu cynlluniau llesiant, disgwyliaf weld sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gyfrannu at amcanion llesiant BGCau. Gall y bydd hyn hefyd yn gofyn i gyrff cyhoeddus adolygu eu hamcanion. Mae egluro'r broses feddwl hon a dangos eu gweithgaredd yn rhan o'r newid diwylliannol sydd ei angen i wneud y Ddeddf yn realiti.

Cwestiynau a allai darlennydd eu gofyn

Sut mae'r broses hon wedi mynd rhagddi hyd yn hyn? A yw amcanion yn dal yn addas flwyddyn yn ddiweddarach? Sut ydych chi'n gweithio gyda'ch gilydd i gyflawni'r amcanion hyn yn fy ardal i?

Disgwylir i gyrff cyhoeddus adeiladu tystiolaeth ac ymagweddau sy'n eu galluogi i wneud asesiad clir o addasrwydd eu hamcanion ar gyfer y diben. Dylai adroddiadau blynyddol archwilio pa mor bell mae'r sefydliad wedi symud ymlaen yn y dasg o adeiladu'r dystiolaeth hon a rhoi barn feirniadol sy'n asesu i ba raddau mae'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni'r amcan yn cael effaith. Mae adroddiadau blynyddol yn hawlio hunan-fyfyrio a gall y bydd rhai cyrff cyhoeddus yn dymuno adolygu a newid eu hamcanion ar sail yr hyn sy'n gweithio a heb fod yn gweithio.

Dylai adroddiadau blynyddol ddisgrifio'r tensiynau y bu'n rhaid i gyrff cyhoeddus ymdopi â hwynt a mynd i'r afael â'r materion anodd lle mae trafodaeth yn cael ei chynnal ar gyfeiriad polisi neu newid gwasanaeth. Sut mae'r Ddeddf wedi cael ei defnyddio i oresgyn yr heriau hyn? Beth yw'r heriau sy'n dal i fodoli? Sut ellid mynd i'r afael â hwynt?

Yn y canllawiau a roddir i wledydd y Cenhedloedd Unedig ar y broses adrodd i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy rhyngwladol, mae'r Cenhedloedd Unedig yn cynghori y dylai'r broses adrodd rannu arfer, y gwersi a ddysgwyd, disgrifio ble mae'r sefydliad yn dymuno dysgu oddi wrth eraill a bod yn hygyrch i bawb. Gwlad fach yw Cymru a gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd wrth symud o newidiadau bach, tuag at arwain y ffordd mewn datblygu cynaliadwy.

Disgwyliad 8:

Atebolrwydd

Rhaid i adroddiadau blynyddol roi tystiolaeth ar sut mae cyrff cyhoeddus yn cael eu dal i gyfrif gan y cyhoedd, aelodau etholedig, ac aelodau bwrdd wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant a defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhob peth a wnânt.

Cwestiynau a allai darlennydd eu gofyn

Beth yw barn eraill am eich gwaith? Pa mor onest ydych chi wedi bod wrth ddisgrifio'r cynnydd a chyflymder newid?

Wrth geisio deall sut mae amcanion a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni, mae gen i hefyd ddiddordeb yn y modd y mae'r cyhoedd, aelodau etholedig ac aelodau'r bwrdd yn craffu ar gynnydd.

Ymgyfraniad yw un o'r **pum dull o weithio** a osodwyd gan y Ddeddf ac mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae eraill yn ymgyfrannu yn y dasg o ddarparu barn feirniadol ar eu gwaith. Disgwylir i adroddiadau blynyddol egluro sut mae eraill wedi ymgyfrannu yng ngwerthusiad penderfyniadau, cynnwys adroddiadau blynyddol a chraffu ar y corff cyhoeddus a'r system y mae'n gweithredu o'i fewn. A oes yna rannau o'r system sy'n gweithio'n well? Pa rwystrau sy'n bodoli?

Disgwyliad 9:

Gwneud eich adroddiadau yn glir

- *Dylai cyrff cyhoeddus fod yn gwneud pethau syml fel dyddio dogfennau, (Mae egluro statws y cyhoeddiad a chadw'r wybodaeth yn syml yn osgoi dryswch ac yn helpu pobl i ymgyfrannu)*
- *Dylent hefyd fod yn ennyn ymgyfraniad pobl yn y gwaith o grynhoi, ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau a chynlluniau i'w helpu i ddarparu'r wybodaeth hon mewn ffordd sy'n fwy hygyrch i'r darlennydd.*

Cwestiynau a allai darlennydd eu gofyn

Beth yw ystyr hyn? Sut fydd yn effeithio arnaf i? Ai hon yw'r ddogfen gywir?

Mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi ysgrifennu eu datganiadau llesiant cyntaf mewn ffordd sy'n benodol iddynt hwy, gan ysgrifennu am 'beth' ond heb osod y cyd-destun neu egluro 'sut'. Mae hyn yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn aml iawn heb fod yn cyfleu'r pethau allweddol y maent yn eu gwneud i ddarllenwyr allanol. Nid yw'r dogfennau eto'n dryloyw ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd adeiladu ymddiriedolaeth gydag eraill a'u galluogi i ymgyfrannu'n ystyrlon ym musnes y sefydliad.

Mae angen i adroddiadau blynyddol fod yn gliriach gan osod gwybodaeth mewn dull syml. Ar hyn o bryd, mae cyrchu gwybodaeth berthnasol a gyhoeddwyd gan gyrff cyhoeddus yn anodd ac mae ei deall yn her, hyd yn oed i'r darlennydd gwybodus.

Dylai cyrff cyhoeddus fod yn ennyn ymgyfraniad pobl yn y modd y mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno a'i gwneud yn berthnasol iddynt hwy, fel un o'r **pum dull o weithio** a nodir yn y Ddeddf. Mae Plant yng Nghymru wedi gweithio gyda lechyd Cyhoeddus Cymru i gynhyrchu enghraifft wych o hyn wrth weithio gyda phobl ifanc i ddylunio ac ysgrifennu ***Datganiad Ansawdd Blynyddol 2016-17 i Bobl Ifanc***. Mae'r gwaith newydd dderbyn y wobr genedlaethol Patient Experience Network am bleidio achos y cyhoedd.

Byddaf yn gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y modd yr ydwyf yn monitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r amcanion a osodwyd ganddynt ac yn defnyddio hyn i roi cyngor arbennig neu gymorth i gyrff cyhoeddus neu fyrddau gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal ag adnoddau a gynhrychir gan fy swyddfa i fy hunan, rydym yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, academia a busnes i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen a chaiff y rhain eu cyhoeddi ar fy ngwefan wrth iddynt ddod yn hygyrch. Bydd y cwestiynau a osodir yn yr adran hon yn trwytho ein gwaith. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill wrth i ni barhau i gyflawni'r ddeddfwriaeth flaenllaw hon.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar yr adroddiad hwn neu os ydych yn dymuno ei drafod ymhellach gyda mi, os gwelwch yn dda ysgrifennwch at cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Atodiad

Adnoddau defnyddiol

Mae fy rhaglen, sy'n cynorthwyo cyrff cyhoeddus, yn ymwneud â gwireddu 'Y Gallu i Greu'. Y bwriad yw eu helpu i fynd rhagddynt ar y siwrnai hon a chynyddu cyflymder newid, drwy dynnu sylw at waith da sydd eisoes yn gwella llesiant mewn cymunedau ar draws Cymru a drwy eu hannog i feddwl am dulliau y gallant eu defnyddio i ddylunio polisi neu gyflwyno gwasanaethau i facsimeiddio buddiannau i bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol, yn hytrach na dim ond mewn un maes o ddiddordeb penodol.

Dros yr 18 mis nesaf, bydd pobl o ystod o sefydliadau, megis Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, yn gweithio o fewn fy nhîm drwy bartneriaethau neu secondiadau, gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio yng Nghymru a thu hwnt, gan roi anogaeth ymarferol, cymorth a dulliau o weithredu i gyrff cyhoeddus fel y gallant sylweddoli beth sy'n bosibl, dysgu oddi wrth y gorau a'u helpu i wella'u perfformiad – yn union fel y dengys yr enghreifftiau hyn o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn.

Rydym yn ennyn ymgyfraniad ystod o bobl o lawer man yng Nghymru i gasglu eu storïau am newid, rhannu arloesedd a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni'r gallu i greu. Ymgyfrannwch drwy e-bostio cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru.

Mae unrhyw ddull o alw cyrff cyhoeddus a BGCau i gyfrif, neu graffu arnynt, yn rhoi cyfle i bwysleisio y dylai penderfyniadau gael eu gwneud drwy ddefnyddio'r Ddeddf fel lens. I'r cyhoedd, mae cynrychiolwyr etholedig ac aelodau byrddau, sy'n chwilio am atebion am gyflymder neu gynnydd a wneir gan sefydliadau cyhoeddus, yn rhan bwysig a hanfodol o'r rôl hon. Mae fy nhîm ar hyn o bryd yn datblygu cyfres o gwestiynau y gellir eu defnyddio i graffu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio lens y Ddeddf ym mhob peth a wnânt, rwyf wedi cyhoeddi [**Fframwaith Prosiectau Cenedlaethau'r Dyfodol**](#) ac, wedi cyhoeddi ar y cyd â Llywodraeth Cymru, [**Fframwaith Dylunio Gwasanaethau Cenedlaethau'r Dyfodol**](#). Mae'r ddau fframwaith wedi eu bwriadu i helpu cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Ddeddf yn eu gwaith.

Mae'r fframweithiau'n cael eu datblygu'n barhaus i'w gwneud mor ddefnyddiol â phosibl i gyrff cyhoeddus a chymunedau a buasai gennyf ddiddordeb i glywed am enghreifftiau lle maent wedi cael eu defnyddio'n effeithiol neu heb fawr o effaith – dywedwch wrthym drwy e-bostio [**cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru**](mailto:cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru)

Rwyf wedi gweithio gyda Chomisiynwyr eraill yng Nghymru i ddatblygu dogfennau ategol a fedr helpu cyrff cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus i integreiddio eu dyletswyddau ac ystyried gwahanol grwpiau o'r boblogaeth. Er enghraifft, rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Plant Cymru, i gynhyrchu pecyn cymorth ar fabwysiadu ymagwedd hawliau'r plentyn tuag at facsimeiddio cyfraniad i'r **saith nod llesiant cenedlaethol**. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnal ysbryd Confensiwn

y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'n bwysig i gydnabod hawliau plant ar draws pob un o'r nodau llesiant a sut y dylent drwytho ymagwedd Cymru tuag at weithredu'r **pum dull o weithio** (os gwelwch yn dda gweler ein gwefan am fwy o fanylion neu ebostiwrch cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru).

Mae gen i bŵer i roi cyngor, cymorth, i annog arfer gorau, hybu ymwybyddiaeth ac annog cyrff cyhoeddus

i weithio gyda'i gilydd ac eraill – lle gall hyn helpu i gyflawni amcanion llesiant. Yn ogystal â'r adnoddau a gynhyrchir gan fy swyddfa i fy hunan, rydym yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, academia a busnes i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen, gan ddefnyddio'r **pum dull o weithio** ein hunain, a chaiff y rhain eu cyhoeddi ar fy ngwefan wrth iddynt ddod yn hygyrch.

Enghraifft

Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli

Bydd y Prosiect Pentref yn cynnwys chwaraeon a gweithgareddau hamdden, ochr yn ochr â byw gyda chymorth, a chwmnïau ymchwil meddygol. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi arwain y prosiect, gan weithio ochr yn ochr â thri awdurdod lleol arall, Prifysgol Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, rhanddeiliaid y trydydd sector a chonsortïwm buddsoddi sector preifat.

Hwn yw'r prosiect adfywio mwyaf erioed yn ne orllewin Cymru ac mae'n brosiect allweddol i Ddinas Ranbarth Bae Abertawe. Dewisodd Cyngor Sir Gaerfyrddin ddefnyddio Fframwaith Prosiectau Cenedlaethau'r Dyfodol i'w helpu gan ddweud:

'Mae'r fframwaith wedi profi i fod yn ddull ymarferol, defnyddiol o drionglio'r **saith nod llesiant cenedlaethol** a'r **pum dull o weithio** gydag egwyddorion gweithredol y prosiect, gan arwain at gynig sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n edrych fwy i'r dyfodol. Mae wedi annog dulliau strategol a gweithredol o feddwl ar draws gwahanol agweddau ar lesiant – cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Gall ymgysylltu mewn trafodaeth ar genedlaethau'r dyfodol yn ystod y cyfnod ffurfiol facsimeiddio effaith a sylweddoli buddiannau. Gall hefyd helpu i ddiogelu'r prosiect ar gyfer y dyfodol drwy feddwl am y cydgyssylltiad rhwng llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae gweithio yn y ffordd hon yn meithrin gwell canlyniadau – meddwl yn holistig, archwilio synergedd, adeiladu rhwydweithiau cydweithredol a sicrhau bod cyfranogiad dinasyddion yn ei gwneud yn bosibl cyflawni mwy gyda llai o adnoddau, hyd yn oed o fewn maes datblygu economaidd/adfywio.'